Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2024

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Casgliad ac argymhellion.....5**

**1. Cyflwyniad.....8**

**2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24.....11**

**3. Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Adroddiad Interim 2024-25.....31**

**4. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026.....36**

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....57**

**Atodiad 2: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.....58**

# Casgliad ac argymhellion

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24;
- Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024;
- Cynllun Blynyddol 2024-25;
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026. ........Tudalen 10

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn egluro a yw'n parhau i ailflaenoriaethu adnoddau o dimau archwilio perfformiad i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei raglen statudol yn 2024-25. ........Tudalen 29

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu'r gwahaniaethau yn y methodolegau a ddefnyddir ar gyfer ei arolygon rhanddeiliaid allanol a mewnol a'i fod yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro cyfyngiadau'r arolwg a arweinir yn fewnol. ........Tudalen 29

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn manylu ar unrhyw ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu Dangosydd Perfformiad Allweddol amgen i fesur boddhad staff. ........Tudalen 30

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn parhau i gyhoeddi canlyniadau ei Arolwg Pobl blynyddol cyn i'r Pwyllgor gynnal ei waith craffu blynyddol ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. ........Tudalen 30

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am y pedwar archwiliad sy'n weddill o gyfrifon 2022-23 a'r materion sydd wedi arwain at yr oedi. ........Tudalen 34

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu sut mae'n ymateb i'r dirywiad mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd ar gyfer cyfradd llwyddiant hyfforddeion ar 30 Medi 2024. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn manylu ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gyflawni ei raglen monitro ansawdd tair blynedd. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn adolygu'r ffordd y cyflwynir ei Amcangyfrif ac yn ystyried sut y gall ddarparu mwy o dryloywder ac eglurder ynghylch ei ffigur pennawd. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn Amcangyfrifon y dyfodol, fod Archwilio Cymru yn ystyried sut y gall ddarparu rhagor o wybodaeth i fanylu ar gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân, yn enwedig lle y caiff cyllid a ddefnyddiwyd yn flaenorol at un diben ei ailddyrannu mewn man arall yn y gyllideb. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae'r newid i symudiadau cyfalaf gwaith yn digwydd yn 2025-26, a'i fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau a allai arwain at Amcangyfrif atodol at ddibenion cyllid sy'n gysylltiedig â symudiadau mewn cyfalaf gweithio. ........ Tudalen 54

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu cyrraedd ei darged arbedion ar gyfer 2025-26........ Tudalen 54

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru:

- yn nodi'r ffactorau y mae'n eu hystyried wrth lunio cynigion cyflog, gan gynnwys y mesurau chwyddiant y mae'n eu hystyried, ac
- yn cadarnhau pa fesur chwyddiant y mae wedi ei ddefnyddio i ategu'r 3.5 y cant o godiad arfaethedig yn 2025-26. ........ Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae'n ystyried dull gwahanol o gymharu â'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol a gynigiwyd yn flaenorol yn 2022, gyda chyfran o'r cynnydd hwnnw'n cael ei gyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru a'r gweddill yn cael ei gyllido drwy ffioedd. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn dangos yn Amcangyfrifon y dyfodol sut y mae'r cynnydd untro o £25,000 mewn costau llywodraethu yn 2025-26 yn lleihau........ Tudalen 55

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith ei swyddogaeth Dadansoddi Data o ran sbarduno arbedion ac effeithlonrwydd. .......... Tudalen 55

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau a yw'r £40,000 o fuddsoddiad ychwanegol mewn seiberddiogelwch yn cynrychioli cost untro ynteu cost barhaus. .......... Tudalen 55

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2025-26, a'i fod hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylder ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol. .......... Tudalen 56

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn nodi cyfanswm y gost a ragwelir am ddatblygu ei blatfform rheoli archwiliadau yn seiliedig ar SharePoint a'r amserlenni ar gyfer cyflawni. .......... Tudalen 56

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi mwy o fanylion am y meysydd o waith a gomisiynwyd a fyddai'n briodol yn ei farn, yn ogystal â'r cyfleoedd a'r risgiau cysylltiedig. .......... Tudalen 56

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

**1.** Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.[1] Roedd y Ddeddf yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn parhau ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd hefyd yn nodi'r trefniadau o ran atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.

**2.** Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Phrif Weithredwr SAC a'i Swyddog Cyfrifyddu. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y cyflogeion a dau aelod a etholir o blith y cyflogeion.

**3.** Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol yr Archwilydd Cyffredinol a SAC, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

## Trefniadau atebolrwydd a llywodraethu

**4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth drwy ei Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".[2] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, mae'r gwaith o oruchwylio SAC wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).[3]

**5.** Cynhaliwyd y gwaith craffu blynyddol ar SAC a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran y flwyddyn hon.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[3] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

**6.** Trafododd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn ar 3 Hydref 2024, gan glywed tystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Dr Ian Rees, Cadeirydd y Bwrdd, a dau o swyddogion Archwilio Cymru:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24;[4]
- RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024[5];
- Cynllun Blynyddol 2024-25[6].

**7.** Ar 7 Tachwedd 2024, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd y Bwrdd a dau o swyddogion Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026;
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024.

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24;
- Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024;
- Cynllun Blynyddol 2024-25;
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed o'i gymharu â'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024;

[4] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24
[5] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)
[6] Cynllun Blynyddol 2024-25

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

# 2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24

**8.** Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24[7] gerbron y Senedd ar 9 Awst 2024. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, yr Archwilydd Cyffredinol a luniodd y Cyfrifon ar gyfer 2023-24, yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Lluniwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.[8]

**9.** Dyma'r tro cyntaf i Dr Ian Rees, y Cadeirydd newydd, lunio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn dilyn ei benodiad ar 12 Mehefin 2024.[9]

**10.** Eglurodd y Cadeirydd fod yr amserlen ar gyfer cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gan nad oedd modd i'r archwilwyr allanol gwblhau eu gwaith mewn pryd iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin, estynnwyd y terfyn amser ar gyfer cymeradwyaeth derfynol y Bwrdd i 31 Gorffennaf. Eglurodd fod rhai newidiadau wedi cael eu nodi i amserlen y broses archwilio allanol yn sgil ymarfer dysgu dilynol, a hynny er mwyn osgoi sefyllfa debyg y flwyddyn nesaf.[10]

## Perfformiad

**11.** Roedd Archwilio Cymru wedi cyflawni, neu'n agos at gyflawni, 10 targed allan o'r 18 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (y Dangosyddion) perthnasol. Gan edrych yn ôl ar berfformiad Archwilio Cymru, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Underpinning all of the areas, I would say, that are not where we want them to be are two big drivers. No. 1, hangover issues related to our experience through the pandemic years. And, secondly, the very significant workforce gaps that we have discussed with the committee in previous years."*[11]

### Rhaglen archwilio strategol, deinamig ac o ansawdd uchel (Dangosyddion 1-7)

**12.** Mae'r saith dangosydd sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn ymwneud â'r allbynnau a gyflawnir gan Archwilio Cymru. Dangosir dirywiad o ran perfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol, gyda'r sefydliad yn "cyflawni ein targed, neu'n agos at

[7] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24
[8] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[9] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [Eitem 5], 12 Mehefin 2024
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 225-226], 3 Hydref 2024
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 235], 3 Hydref 2024

wneud hynny" ar gyfer dau ddangosydd, o gymharu â thri o'r sgoriau cyfatebol ar gyfer 2022-23.[12]

**13.** Mae cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd neu y cytunwyd arnynt yn unol â'r terfynau amser statudol wedi gwella rywfaint (85 y cant o gymharu ag 84 y cant). O ran Dangosydd 1, nodir o hyd fod "angen gwelliant" gan mai'r targed perthnasol yw 100 y cant.[13] Wrth ymateb i argymhelliad y Pwyllgor[14], ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor i roi gwybodaeth am archwiliadau 2022-23 nad oeddent wedi'u cwblhau erbyn y terfyn amser, sef 31 Ionawr 2024.[15]

**14.** Yn ei ddatganiad ar ddechrau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod "bod ein hamserlen archwilio cyfrifon yn 2023-24 ar ei hôl hi o gymharu â lle yr hoffem fod, yn enwedig yn y sector llywodraeth leol", gan gyfeirio wedyn at etifeddiaeth y pandemig, prinder gweithwyr cyllid proffesiynol ym mhob rhan o'r diwydiant a'r "angen i weithio drwy rai materion archwilio anodd".[16] Nod Archwilio Cymru yw dychwelyd i amserlen fwy traddodiadol ar gyfer y GIG a sectorau llywodraeth leol erbyn archwiliadau cyfrifon 2025-26.[17]

**15.** Mae cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol wedi gostwng, a nodir bod "angen gwelliant sylweddol" yn hyn o beth (Dangosydd 2). O'i gymharu â'r targed o 90 y cant, cyflawnodd Archwilio Cymru 76 y cant[18] (82 y cant yn 2022-23[19]).

**16.** Gan gydnabod bod llai o waith anstatudol wedi ei gyflawni (Dangosydd 2), dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y gwnaed penderfyniad pendant i flaenoriaethu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen statudol, gan symud adnoddau oddi wrth dimau archwilio perfformiad i gefnogi'r timau archwilio cyfrifon. Dywedodd fod niferoedd staff ar draws y sefydliad wedi cynyddu bron yn ôl i'r lefel briodol, ac roedd yn hyderus y bydd y sefydliad yn dechrau gweld gwelliant.[20]

---

[12] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 15
[13] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 1
[14] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyllid, 17 Gorffennaf 2023
[15] Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru, 23 Mai 2024
[16] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 11
[17] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 21
[18] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 2
[19] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, tudalen 18
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 240 a 242], 3 Hydref 2024

**17.** Cyflawnodd Archwilio Cymru ddau ddangosydd fel rhan o'r thema hon:

- Dangosydd 3 – nifer yr archwiliadau a adolygwyd a gyflawnir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (roedd pob un o'r saith archwiliad a samplwyd yn y ddau gategori uchaf o ran ansawdd archwilio, o gymharu â chwech o'r saith archwiliad a samplwyd yn 2022-23);
- Dangosydd 4 – cyfran y rhanddeiliaid sy'n ystyried bod Archwilio Cymru yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus (92 y cant o gymharu ag 85 y cant yn 2022-23, yn erbyn targed o 90 y cant).[21]

**18.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym ei fod wrth ei fodd â pherfformiad y sefydliad yn erbyn y dangosydd ansawdd archwilio:

> *"… we anticipated a dip in our external scores for assessment of audit quality because of the really fundamental changes that we were applying to all aspects of our audit work last year. But, as you can see, we scored exactly what we needed to do. That compares very favourably with our sister organisations elsewhere in the UK, and is a huge testament to the work of the staff."*[22]

**19.** Yn yr Adroddiad Blynyddol, dangosir gostyngiad yng nghyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy waith Archwilio Cymru, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall (Dangosydd 5), o 71 y cant i 64 y cant, yn erbyn targed o o leiaf 80 y cant. Nodir bod "angen gwelliant" o ran y dangosydd hwn o hyd.[23]

**20.** Methodd Archwilio Cymru ei darged hefyd ar gyfer cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ei waith wedi arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus (Dangosydd 6), sef o leiaf 80 y cant. Nodir bellach bod "angen gwelliant" yn hyn o beth, gyda sgôr o 76 y cant o gymharu ag 81 y cant yn 2022-23.[24]

**21.** Gan drafod perfformiad yn erbyn Dangosydd 5 a Dangosydd 6, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

[21] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 16
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 238], 3 Hydref 2024
[23] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 5
[24] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 6

> *"… there is a measurement factor to keep in mind here. So, every other year, we undertake a large, externally run stakeholder survey. So, we did one in 2023, we'll do the next in 2025. This year's data is gathered through a much narrower exercise that we undertake ourselves internally. So, there is some limitation, I would say, on this year's data. Nonetheless, those two areas have always been the weaker of our themes."*[25]

**22.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2024-25 yn adlewyrchu'r meysydd lle y mae angen gwelliant, gan gynnwys sut yr eir ati i gyfathrebu canfyddiadau Archwilio Cymru a datblygu'r wefan i'w gwneud yn llawer haws i ddefnyddwyr weld y canfyddiadau a'r mewnwelediad sy'n deillio o'i waith. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym y gallai hefyd fod cysylltiad rhwng perfformiad yn y maes hwn a pha mor brydlon y caiff gwaith ei gyflawni, gydag unrhyw oedi yn effeithio ar berthnasedd ei waith. Ychwanegodd:

> *"That said, these are probably two of the hardest ones for us to shift, because, of course, not all of our work is designed to provide insight or to drive improvement; a lot of it is about giving you and the public assurance that organisations are managing their finances well."*[26]

**23.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai un o'r blaenoriaethau yw canolbwyntio'n llawer mwy penodol ar faterion gwerth am arian:

> *"I think we drifted away from that through the pandemic period. So, bringing our work back to that kind of focus, I hope, will assist in this area. It will be telling organisations important things that they need to know at this point in time."*[27]

**24.** Nodir bellach fod "angen gwelliant sylweddol" o ran Dangosydd 7 (gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy ei waith), er bod Archwilio Cymru wedi "cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny" yn flaenorol yn 2022-23. Fodd bynnag, y targed ar gyfer y mesur hwn yw "o leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026", felly 2023-24 yw'r flwyddyn gyntaf mewn cyfnod o dair blynedd.[28]

---

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 248], 3 Hydref 2024
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 249-250], 3 Hydref 2024
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 254], 3 Hydref 2024
[28] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 7

## Dull cyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith sylweddol (Dangosyddion 8-11)

**25.** Mae'r pedwar Dangosydd sy'n rhan o'r thema hon yn ymwneud ag ymgysylltu o ran digwyddiadau, gwefan Archwilio Cymru, y cyfryngau cymdeithasol a rhannu a dysgu. O ran pob un o'r pedwar dangosydd, nodir bod Archwilio Cymru wedi "cyflawni ein targed, neu'n agos at wneud hynny":

- Dangosydd 8 – dywedodd 100 y cant o randdeiliaid fod digwyddiadau arferion da Archwilio Cymru yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, sy'n gydradd â'i sgôr o 100 y cant yn 2022-23 (targed o 90 y cant);
- Dangosydd 9 – roedd 59,100 o ymweliadau â'r wefan pan gafodd o leiaf un weithred ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo, o gymharu â 44,900 o ymweliadau yn 2022-23 (targed o 35,000 bob blwyddyn);
- Dangosydd 10 – roedd 4,000 o ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o gymharu â 4,200 yn 2022-23 (targed o 3,000 o ymgysylltiadau bob blwyddyn);
- Dangosydd 11 – roedd 45 o achosion pan gyflwynodd Archwilio Cymru ddysg am archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol, o gymharu â 65 yn 2022-23 (targed o 50 bob blwyddyn).[29]

## Model diwylliant a gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu (Dangosyddion 12-18)

**26.** Mae'r saith Dangosydd sy'n rhan o'r maes hwn yn ymwneud â staff Archwilio Cymru a rhedeg y busnes. Cyflawnodd Archwilio Cymru bedwar o'r dangosyddion hyn yn 2023-24 o gymharu â phump yn 2022-23:

- Dangosydd 12 – canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol o 64 y cant o gymharu â 60 y cant yn 2022-23 (y targed yw sgôr meincnod canolrifol ar gyfer Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil - 64 y cant yn 2023);
- Dangosydd 15 – amrywiant tanwariant net ar incwm a gwariant o'i chymharu â'r hyn a nodwyd yn yr Amcangyfrif o 1.1 y cant o'i gymharu â 0.8 y cant yn 2022-23 (targed o lai na 2 y cant o'r gyllideb gwariant gros);

[29] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 18

- **Dangosydd 16** – £1.8 miliwn o arbedion costau ac effeithlonrwydd wedi'u nodi ym mob rhan o'r busnes o gymharu ag £1.5 miliwn yn 2022-23 (targed o £1.4 miliwn);
- **Dangosydd 17** – 280 tunnell o allyriadau sy'n cyfateb â $CO_2$ o gymharu â 290 tunnell yn 2022-23 (y targed yw gostyngiad o 20 y cant ar linell sylfaen 2019-20 sydd wedi ei hailgyfrifo).[30]

**27.** Sonodd yr Archwilydd Cyffredinol am sut y gwnaeth Archwilio Cymru ragori ar y targed ar gyfer arbedion o £1.4 miliwn (Dangosydd 16):

> *"Included within that target of £1.4 million is an assumption that we always make in setting our budget for around about a 5 per cent churn of our staff. Just through that churn and the vacancies that arise, that will generate the best part of £1 million of that sum. So, in large part, the fact that we overdelivered on that measure last year is because of all the vacancies that we had."*[31]

**28.** O ran yr arbedion eraill yn ystod y flwyddyn, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at darged arbedion y grŵp cynaliadwyedd ariannol, sef £500,000:

> *"That sum is much more akin to genuine savings and efficiencies. Moving forward in our annual plan, you will see that we're no longer going to incorporate that staff churn saving as part of our savings target. It will still be built into the numbers, we just won't be seeing it as savings, because they're not. But we will focus just on a smaller number that are genuine savings and efficiencies that we need to drive."*[32]

**29.** Wrth edrych i'r dyfodol, nid yw'r mesur ar gyfer arbedion costau (Dangosydd 16) yng Nghynllun Blynyddol 2024-25 yn cyfeirio'n benodol at "arbedion effeithlonrwydd" mwyach, gan arwain at ostwng y targed o £1.4 miliwn yn 2023-24 i darged o £400,000 yn 2024-25.[33]

**30.** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid fod y grŵp adolygu cynaliadwyedd ariannol wedi bodloni ei darged arbedion o £500,000, gan gynnwys nodi arbedion cylchol o £238,000. Dywedodd yr Archwilydd

---

[30] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 19
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 281], 3 Hydref 2024
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 281], 3 Hydref 2024
[33] Cynllun Blynyddol 2024-25, tudalen 28

Cyffredinol fod yr arbedion cylchol yn cynnwys newidiadau i ystad Archwilio Cymru ac achosion o fanteisio ar drosiant staff er mwyn ailstrwythuro timau, yn enwedig pan nad ydynt yn ennill ffioedd, gan olygu bod Archwilio Cymru'n lleihau ei gostau ac yn cyflawni am bris llai yn y dyfodol.[34]

**31.** Nodir o ran tri dangosydd fod "angen gwelliant":

- Dangosydd 13 – gadawodd 12.3 y cant o gyflogeion Archwilio Cymru yn wirfoddol o gymharu â 10.1 y cant yn 2022-23 (targed o rhwng 5 a 10 y cant y flwyddyn);
- Dangosydd 14 – collwyd 7.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd fesul aelod o staff y flwyddyn o gymharu â 6.6 diwrnod yn 2022-23 (targed o lai na chwe diwrnod);
- Dangosydd 18 - llwyddodd 82 y cant o hyfforddeion basio arholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr y tro cyntaf o gymharu â 68 y cant yn 2022-23 (y targed yw o leiaf 90 y cant).[35]

**32.** O ran Dangosydd 13 a'r nifer ddigynsail o staff a gollwyd, fel a drafodwyd gyda'r Pwyllgor y llynedd[36], nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod trosiant staff bellach tua 8.5 y cant:

> *"I think the figure we've reported in the report and accounts is just over 12 per cent, and I think in year, at one point, it was even higher than that. You'll see our KPI target that we've set is between 5 per cent and 10 per cent. So, we don't want it to go too low. That will be an organisation that is at risk of becoming stale and not allowing people to move on and develop, but it's much more now at a level that we're comfortable with. We've had a lot of success in recruitment, and we've seen that loss of staff reduce considerably."*[37]

**33.** Wrth fynd i'r afael â lefelau absenoldeb salwch (Dangosydd 14), dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol wrthym mai'r prif reswm am hyn oedd absenoldeb hirdymor sy'n gysylltiedig â straen:

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 284 a 288], 3 Hydref 2024
[35] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 19
[36] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, paragraffau 46-49
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 261], 3 Hydref 2024

> *"… we now record work-related stress absence and then home or other-related stress absence. In this case, the majority of the absences are caused because of factors outside of work. But understanding that helps us to target intervention and support more effectively. I think the other point to make is that, in a relatively small organisation—300 staff—just a couple of long-term absences can have a significant impact on your overall statistics."*[38]

**34.** Aeth ymlaen i esbonio'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i staff sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor, gan gynnwys cwnsela cyfrinachol am ddim a chymorth gan y tîm iechyd galwedigaethol, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig a hyrwyddwyr llesiant.[39]

**35.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at y gwelliant o ran Dangosydd 18 sy'n ymwneud â nifer yr hyfforddeion sy'n llwyddo yn eu harholiadau:

> *"… I'm really pleased too that our indicator around trainee examination success is moving upwards again, after a dip around the pandemic. That's good for the here and now, but, obviously, is an indicator of strength for the future as well, as those people come through the system."*[40]

**36.** Ni nodwyd bod "angen gwelliant sylweddol" ar gyfer unrhyw ddangosyddion yn y maes hwn o gymharu â dau yn 2022-23. Fodd bynnag, nid yw'r dangosydd sy'n ymwneud â phrofiad gweithwyr, lle nodwyd bod "angen gwelliant sylweddol" yn 2022-23, wedi'i gynnwys yn y dangosyddion mwyach.[41] Yn lle hynny, cyflwynodd Archwilio Cymru ddangosydd sy'n ymwneud â chyfran y gweithwyr sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol bob blwyddyn.[42]

**37.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y penderfyniad a gymerwyd i symud i ffwrdd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn golygu nad oes modd gwneud cymhariaeth â'r Dangosydd profiad cyflogeion blaenorol (a fesurwyd yn erbyn sgoriau profiad cyflogeion thematig yr Arolwg):

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 337], 3 Hydref 2024
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 338], 3 Hydref 2024
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 238], 3 Hydref 2024
[41] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, Dangosydd 13
[42] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 13

> *"… but we've maintained the principal one, which is around staff engagement, and added in a new indicator related to staff turnover, because that was such a big issue for us."*[43]

**38.** Pan ofynnwyd i'r Archwilydd Cyffredinol a fyddai dileu'r Dangosydd ar gyfer profiad cyflogeion yn peri'r risg na fyddai'r Pwyllgor a'r cyhoedd yn cael dealltwriaeth lawn o foddhad staff Archwilio Cymru, dywedodd fod canlyniadau'r Arolwg Pobl yn cael eu cyhoeddi'n llawn ar wefan Archwilio Cymru, a bod y themâu hefyd yn cael eu hamlygu yn naratif yr Adroddiad Blynyddol. Ychwanegodd:

> *"So, in the round, it feels to me and the board as though the KPIs do give a rounded, fair, transparent reflection of life at Audit Wales."*[44]

**39.** Er iddo symud i ffwrdd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, dywed Archwilio Cymru ei fod wedi defnyddio "dull newydd" gan gadw'r gallu i feincnodi yn erbyn mynegai ymgysylltu'r Arolwg.[45] Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym fod yr Arolwg Pobl newydd yn cynnwys:

> *"… the questions that generate the overall engagement index, and that is common to all organisations that use the CSPS, but also organisations that have stepped out, such as the Senedd Commission, I believe. So, that is the principal way that we maintain that sort of benchmarking capability. But within the survey that we use, we also have comparability with all other users of that survey, and it's extensively used throughout the world, so that will give us benchmarking, not only to other parts of the public sector, but also to professional private organisations that operate in a similar kind of field."*[46]

**40.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod staff, yn gyffredinol, yn dweud "eu bod yn gallu taro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, fod ganddynt yr offer i fwrw ymlaen â'u gwaith yn effeithiol, fod ganddynt amcanion gwaith clir a bod eu rheolwr yn eu hysgogi." Mae'r sgoriau o ran canfyddiad cyfleoedd dysgu a datblygu wedi gwella hefyd, ond awgrymir nad oedd ymatebion yr arolwg "cyn gryfed" mewn perthynas â:

---

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 237], 3 Hydref 2024
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 257], 3 Hydref 2024
[45] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 43
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 292], 3 Hydref 2024

- corffori hyder mewn uwch-arweinyddiaeth a'r weledigaeth strategol;
- dyrannu a rheoli adnoddau;
- cydnabod a rheoli perfformiad.[47]

**41.** Pan ofynnwyd i'r Archwilydd Cyffredinol sut yr oedd yr ymatebion i'r arolwg yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, a sut yr eir i'r afael â'r ymatebion gwannach, dywedodd wrthym fod y platfform ymgysylltu â chyflogeion newydd a'r arolwg yn rhoi llawer mwy o wybodaeth am y pethau y gellid eu haddasu i helpu i arwain a llywio'r sefydliad. Aeth yn ei flaen i ddweud:

> *"On those three themes that you mentioned around leadership message, resourcing and performance management, it's not that those areas were areas of particular weakness, but they are the areas where, if we focus our efforts, those will be the most effective levers to pull in order to improve overall staff engagement. So, that's what we've done through the current year and we're all in the process, for instance, of a regular round of direct staff engagement exercises. We've invested in a significant management development programme for everybody from me downwards who has line management responsibilities over the last year, and we've revamped our performance management system. Whether that's bearing fruit, we will find out in the next few weeks. This year's survey goes out at the start of next week. I'm optimistic they are having some positive impact, though."*[48]

## Atebolrwydd a llywodraethu

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

**42.** Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd y Pwyllgor wybod fod Dr Kathryn Chamberlain, sef Cadeirydd blaenorol SAC, wedi ymgymryd â rôl ychwanegol o 1 Ionawr 2024 tra'r roedd yn cadeirio SAC, a oedd yn golygu y cafodd ei hanghymhwyso fel aelod ac fel Cadeirydd o dan y Ddeddf.[49] Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wybod i'r Archwilydd Cyffredinol fod y Cadeirydd wedi'i hanghymhwyso ar 15 Ebrill 2024. Wedi hynny, penodwyd Dr Ian Rees yn

[47] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalennau 43-44
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 290], 3 Hydref 2024
[49] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 13 Mai 2024

Gadeirydd SAC o 12 Mehefin 2024 ymlaen.[50] Rhoddodd Archwilio Cymru wybod i'r Pwyllgor am newidiadau a wnaed yn sgil y mater hwn, gan gynnwys y gofyniad i aelodau roi gwybod i'r Pwyllgor pe baent yn bwriadu ymgymryd â swyddi a gweithgareddau ychwanegol, yn ogystal â newidiadau i'r rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer aelodau.[51] Trafodir amghymhwyso'r cyn-Gadeirydd[52] ymhellach ar dudalen 27.

**43.** Nodir yn yr Adroddiad Blynyddol fod un aelod etholedig sy'n gyflogai wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd ar 31 Awst 2023 a bod aelod newydd wedi'i benodi yn ei le ar 18 Hydref 2023.[53]

**44.** Yn 2023-24, cynhaliodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a ddaeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"… yn gyffredinol, fod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol gyda rhai meysydd i'w gwella a nodwyd. Datblygodd y Bwrdd gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a nodwyd yr oedd angen eu gwella a chytunodd i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'i effeithiolrwydd yn 2025-26."*[54]

**45.** Dywedodd y Cadeirydd wrthym fod y cynllun gweithredu yn cynnwys adolygu amserlenni ac eitemau ar yr agenda i sicrhau ffocws ar fewnbwn a phenderfyniadau strategol, datblygu adroddiad perfformiad integredig effeithiol, cynnal diwrnodau i ddatblygu'r Bwrdd a gwella amlygrwydd y Bwrdd ac ymgysylltiad â staff.[55]

**46.** Cwblhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol hunanasesiadau o'u heffeithiolrwydd hefyd. Yn yr Adroddiad Blynyddol, nodir bod y Bwrdd "yn fodlon â chadernid yr asesiadau" ac "nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder."[56]

## Archwilio mewnol

**47.** Cyhoeddodd TIAA, sef archwilwyr mewnol Archwilio Cymru a benodwyd ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25, saith adroddiad archwilio

[50] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 12 Mehefin 2024, eitem 5
[51] Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru, 11 Mehefin 2024
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2024
[53] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 57
[54] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 59
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 300], 3 Hydref 2024
[56] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 60

mewnol yn ystod 2023-24. Yn y datganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2023-24, nodir:

> *"Fod TIAA yn fodlon bod gan Archwilio Cymru brosesau rheoli a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."*[57]

**48.** O'r saith adroddiad archwilio mewnol, nodwyd bod "sicrwydd sylweddol" mewn pedwar o'r meysydd a archwiliwyd, a bod "sicrwydd rhesymol" yn y tri maes archwilio a ganlyn:

- Seiberddiogelwch;
- Cynllunio'r gweithlu;
- Diogelu data.[58]

**49.** Ymhelaethodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ar archwiliad mewnol TIAA o drefniadau seiberddiogelwch Archwilio Cymru:

> *"… their conclusion around reasonable assurance was, effectively, that there is an adequate system of internal control, controls are working effectively, but there's some scope for improvements. They raised some helpful recommendations—we've addressed all bar two of those. The last two are due to be completed by the end of this calendar year, and the final one is, in fact, pursuing a new cyber security accreditation. That's something that our audit committee will be considering at their meeting in December."*[59]

**50.** Esboniodd fod ymgynghorydd seiberddiogelwch o Accenture wedi'i gyflogi i ddarparu gwasanaethau ymgynghori a chymorth 24 awr y diwrnod, saith diwrnod yr wythnos, pe bai ymosodiad seiber llwyddiannus, a'i fod wir yn helpu Archwilio Cymru i gryfhau ei drefniadau ac i ganolbwyntio adnoddau ar y pethau fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran amddiffyn rhag ymosodiad seiber.[60]

[57] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 62
[58] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalennau 63-64
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 311], 3 Hydref 2024
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 312], 3 Hydref 2024

### Risg

**51.** Nodir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bod nifer o risgiau strategol allweddol wedi amrywio yn ystod y cyfnod adrodd, gan fynnu amser y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn enwedig, gan gynnwys:

- Methu sicrhau cyllid digonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig;
- Anallu i ddarparu adnodd llawn ar gyfer rhaglen waith archwilio sy'n datblygu ac sy'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol;
- Methu darparu incwm digonol o ffioedd oherwydd pwysau darparu adnoddau;
- Methu gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i'r drefniadau ansawdd archwilio sy'n ofynnol gan safonau proffesiynol newydd a diwygiedig.[61]

**52.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn "fodlon bod y risgiau hyn wedi eu monitro a'u rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn", ac mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod nifer o risgiau wedi'u rheoli'n llwyddiannus ac wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr risg strategol yn ystod y cyfnod adrodd.

**53.** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid fod gan Archwilio Cymru ar hyn o bryd un risg uchel sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol:

> *"That, we feel, is likely to be de-escalated in this current year, when we've completed our assessment of our quarter 2, looking at our accounts."*[62]

## Staff

**54.** Gostyngodd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn o 276 yn 2022-23 i 269 yn 2023-24, sef gostyngiad cyfwerth â saith aelod o staff. O fewn y ffigur cyffredinol hwn, cynyddodd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a leolir yn y DU a gyflogir yn ystod y flwyddyn i 215 (sef cynnydd cyfwerth ag wyth aelod o staff), gostyngodd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a leolir yn y DU ar gontractau cyfnod penodol a gyflogir yn ystod y flwyddyn i 53 (sef gostyngiad

[61] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalennau 65-66
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 328], 3 Hydref 2024

cyfwerth â 13 aelod o staff) a gostyngodd nifer y contractwyr archwilio ac arolygu o dri i un. Yn yr Adroddiad Blynyddol, nodir fel a ganlyn:

> *"Bu cynnydd i nifer y staff parhaol oherwydd i lawer o'n hyfforddeion a gymhwysodd yn ddiweddar lwyddo i gael swyddi parhaol. Mae'r gostyngiad i nifer y staff ar gontractau cyfnod penodol yn adlewyrchu'r cynnydd dilynol i swyddi hyfforddeion gwag yr ydym wrthi'n recriwtio iddynt ar hyn o bryd."*[63]

**55.** Cafodd un aelod o staff daliad diswyddo yn 2023-24 ar gost o £31,643, a hynny o'i gymharu â thri aelod o staff yn 2022-23 ar gost o £152,403.[64] Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y taliad yn ymwneud â chael gwared ar swydd ran-amser fechan er mwyn ailstrwythuro'r tîm perthnasol a rhoi strwythur yn ei le sy'n llawer mwy cadarn ac addas ar gyfer y math o waith y mae angen i Archwilio Cymru ei gyflawni.[65]

**56.** Cyfanswm y costau staff a chostau cysylltiedig yn 2023-24 oedd £19.6 miliwn (gan gynnwys diswyddiadau ac ar ôl ystyried incwm o secondiadau mewnol), o gymharu â £18.6 miliwn yn 2022-23.[66] Yn ystod y flwyddyn, talodd Archwilio Cymru daliad costau byw untro o £1,500 i staff.[67]

## Cyfrifon

### Alldro

**57.** O gymharu alldro â'r Amcangyfrif, yr amrywiad mwyaf o ran gwariant refeniw a welir yw'r tanwariant o £1.1 miliwn mewn perthynas â chostau staff, lle gwariwyd £19.0 miliwn. Mae Archwilio Cymru yn nodi bod hyn yn ymwneud â throsiant staff uwch yn ystod y flwyddyn.[68] Gan esbonio effaith trosiant staff a heriau recriwtio, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol:

> *"There's a direct result then on our spend, so about a £1.5 million underspend on staff costs. That was actually offset by a one-off cost-of-living payment to staff, which I think this committee will remember discussing nine months or so ago, so that netted it down to about £1.1 million. But, absolutely,*

[63] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 78
[64] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 77
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 335], 3 Hydref 2024
[66] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 79
[67] Archwilio Cymru, Amcangyfrif Atodol 2023-24
[68] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 86

> *without those staff we're not in a position to generate the income, and that leads to that £1.3 million underdelivery on income."*[69]

**58.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod lefelau staffio yn llawer gwell erbyn hyn, a bod ganddynt mwy o staff nag y byddai eu hangen i gyflawni blwyddyn arferol o waith, a hynny er mwyn gallu mynd i'r afael â'r ôl-groniadau.[70]

**59.** Roedd gan Archwilio Cymru danwariant cyfalaf o £57,000.[71] Tanwariodd Archwilio Cymru ei ddyraniad cyfalaf yn 2022-23 hefyd.[72] Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ddau brif reswm dros yr amrywiad o ran gwariant cyfalaf:

> *"One of them is an underspend because of a delay in the ongoing development of our SharePoint-based audit management system, called SMART. That's something that's been rolled forward into the current financial year, so that's happening now. The other factor is the ongoing move from capital to revenue expenditure in terms of IT infrastructure. So, rather than having spend and kit on premises, we're increasingly renting that in the cloud because that gives you better security, better value for money. So, in recognition of that trend, what we're looking to do is to reduce our capital programme from 2025-26 onwards to reflect that."*[73]

## Datganiadau Ariannol

**60.** Yn y datganiadau ariannol, amlinellir colled credyd o £143,000 yn 2023-24[74] (i fyny o £77,000 yn 2022-23[75]) yn ymwneud â dyledion sy'n hŷn na 12 mis ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol wrthym fod y ddyled yn ymwneud bron yn llwyr â chynghorau tref a chymuned a bod y gwaith hwn yn golygu mynd ar drywydd nifer fawr iawn o anfonebau bach iawn. Esboniodd fod rheolwr credyd dros dro wedi'i benodi i fynd i'r afael â'r mater:

[69] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 346], 3 Hydref 2024
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 351], 3 Hydref 2024
[71] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 83
[72] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023
[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 356], 3 Hydref 2024
[74] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 112
[75] Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru, 2 Hydref 2023

*"Their work has already proved to be really successful. So, over the past three or four months our debts over 90 days have reduced by about a half, and the debts over 12 months have started to reduce slightly. What we're expecting, though, over the next month or so, is a further reduction in those debts, because there is a regular cycle of council meetings for town and community councils. Those have just been held and one of the things on the agenda is to approve the payment of the Audit Wales invoice. So, we expect that figure to come down again during October."*[76]

**61.** Yn y datganiadau ariannol, nodir bod yr hawl cytundebol i lwfans teithio wedi cael ei dileu, a bod staff yn gallu dewis cael taliad ymlaen llaw neu barhau i gael y lwfans teithio tan fis Mawrth 2024. Gwnaed taliadau sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r costau hyn i staff ym mis Ebrill 2022, gyda'r balans (£41,000) yn cael ei ddal yn amodol ar newidiadau i delerau cyflogaeth staff. Mae'r datganiadau ariannol yn cadarnhau bod y ddarpariaeth erbyn hyn "naill ai wedi cael ei defnyddio neu ei rhyddhau gan nad oes unrhyw daliadau pellach yn ddyledus".[77]

**62.** Mae'r datganiadau ariannol yn nodi taliad arbennig o £21,140, a dalwyd i aelod o staff yn 2023-24 i ddatrys anghydfod cyflogaeth.[78] Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y taliad yn ymwneud â mater ynghylch hawl hanesyddol i'r lwfans teithio:

*"We were not found to be at fault, but we did take external legal advice and that said the safest and most appropriate way to resolve the dispute and to protect the organisation from any risk of further cost or claim would be to settle. That we've done, to mutual agreement on both sides, so the issue is now resolved satisfactorily all round. It was a pretty unique set of circumstances around this case, so I'm confident that there are no others in the organisation."*[79]

[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 361], 3 Hydref 2024
[77] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 117
[78] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 119
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 376], 3 Hydref 2024

## Canfyddiadau'r Archwiliad

**63.** Ni chododd archwilwyr annibynnol SAC, sef RSM UK Audit LLP ('RSM'), unrhyw faterion yn ei adroddiad sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.[80]

**64.** Rhannodd RSM yr adroddiad ar ei ganfyddiadau yn dilyn ei archwiliad[81] â'r Pwyllgor hefyd, sy'n crynhoi ei brif ganfyddiadau, mewn cysylltiad â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Archwilio Cymru o ran y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**65.** Mae'r adroddiad yn amlinellu tri maes risg archwilio, gan gynnwys:

- Cydnabyddiaeth refeniw – gwaith sydd ar y gweill ac incwm gohiriedig (y nodwyd ei fod yn risg sylweddol);
- Rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol (y nodir ei fod yn risg sylweddol);
- Risg i enw da (y nodir ei fod yn risg uwch).[82]

### Cworwm

**66.** Mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad statudol mewn perthynas â rheolau SAC o ran cworwm, sy'n datgan "na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol".[83]

**67.** O ganlyniad i anghymhwysiad y cyn-Gadeirydd (gweler paragraff 42), mae RSM yn nodi:

> *"If the disqualification was effective in January then there is a risk that, absent any specific legal advice on the matter, the quorum for board meetings will not have been met in the February and March 24 board meetings, as there would not have been a majority of non-executive board members."*[84]

[80] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 87
[81] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)
[82] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)
[83] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, paragraff 28(3) o Atodlen 1
[84] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tudalen 8 (Saesneg yn unig)

**68.** Wrth drafod y mater hwn, mae rheolwyr Archwilio Cymru yn cyfeirio at gyngor cyfreithiol allanol a chyfarwyddyd a ddarparwyd ar 22 a 25 Ebrill 2024 nad oedd y Cadeirydd wedi'i anghymhwyso. At hynny, mae ymateb y rheolwyr yn nodi:

> *"… even if the Chair were disqualified, the savings provision at paragraph 31 of Schedule 1 to the Public Audit (Wales) Act 2013 would apply. That paragraph provides that "The validity of anything done by the WAO (including anything done by its nonexecutive members, the employee members, any committee or sub-committee and by any employee of the WAO) is not affected by— (a) a vacancy, or (b) a defective appointment.") The advice confirmed that that the WAO did not need to take any remedial action in relation to acts during the period and that the acts of the WAO in the period were not open to legal challenge."*[85]

**69.** Pan ofynnwyd i'r Cadeirydd a wnaeth y Bwrdd unrhyw benderfyniadau neu a gymerodd unrhyw gamau yn sgil yr anghymhwysiad, cyfeiriodd at gyngor cyfreithiol allanol SAC, yn ogystal â'r ddarpariaeth arbed yn y Ddeddf:

> *"… which means that those decisions are not invalidated by vacancies or defective appointments, and we took legal advice on that very point and we're completely confident that there were no decisions taken by the board that were invalidated or impacted by the chair's disqualification".*[86]

## Barn y Pwyllgor

**70.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Archwilio Cymru wedi cyflawni 10 o'i 18 o Ddangosyddion yng nghyd-destun llwyth gwaith a heriau staffio parhaus yn 2023-24. Mae perfformiad yn cynnwys canlyniadau cryf yn erbyn dangosyddion ansawdd archwilio ac ymgysylltu, sy'n feysydd y mae'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb ynddynt yn flaenorol. Rydym hefyd yn falch o weld gwelliant yng nghyfraddau llwyddiant hyfforddeion o ystyried y gallai hyn gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r pwysau ar y gweithlu. Rydym yn awyddus i weld gwelliant parhaus yn y maes hwn ac yn gobeithio y gellir cyrraedd y targed yn 2024-25.

---

[85] RSM UK Audit LLP - Adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, tualen 8 (Saesneg yn unig)
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 296], 3 Hydref 2024

**71.** Rydym yn cydnabod y bu cynnydd bach yng nghyfran y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol yn 2023-24, er ein bod hefyd yn nodi bod hyn ymhell o'r targed o 100 y cant. At hynny, nodwn fod hyn wedi'i gefnogi'n rhannol gan y penderfyniad i ddargyfeirio adnoddau archwilio perfformiad lle y bo'n bosibl, gan olygu bod llai o fathau eraill o waith archwilio yn cael eu cyflawni'n unol ag amserlenni a gynlluniwyd. Rydym yn llwyr gefnogi amcan Archwilio Cymru o ddychwelyd i'r amserlenni traddodiadol ar gyfer y GIG a llywodraeth leol erbyn yr archwiliad o gyfrifon 2025-26, ac mae'r dystiolaeth bod lefelau staffio yn gwella a throsiant staff yn lleihau wedi ein calonogi. Rydym yn rhagweld gwelliannau o ran cyflawni yn erbyn dangosyddion statudol ac anstatudol yn 2024-25 o ystyried awgrym yr Archwilydd Cyffredinol bod lefelau staffio bellach yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni blwyddyn arferol o waith. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'r adnoddau a gafodd eu hailflaenoriaethu i ganolbwyntio ar waith archwilio cyfrifon yn 2023-24 bellach wedi'u dychwelyd i'r timau archwilio perfformiad.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn egluro a yw'n parhau i ailflaenoriaethu adnoddau o dimau archwilio perfformiad i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei raglen statudol yn 2024-25.

**72.** Rydym yn nodi'r dull gwahanol o gasglu adborth gan randdeiliaid a ddefnyddir i fesur perfformiad, gan gynnwys yn erbyn y dangosyddion 'darparu mewnwelediad' a 'sbarduno gwelliant', a bod hyn yn golygu cynnal ymarfer ymchwil annibynnol un flwyddyn, ac yna cynnal arolwg culach yn fewnol y flwyddyn nesaf. Y llynedd, gwnaethom fynegi pryderon y gallai newid y fethodoleg yn flynyddol effeithio ar y gallu i gymharu'r sgoriau a'i gwneud yn anos nodi materion sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn derbyn y gallai materion fel oedi wrth gyflawni'r gwaith archwilio fod wedi effeithio ar y sgoriau adborth is gan randdeiliaid, ond hoffem ddeall mwy am gyfyngiadau'r data a gasglwyd drwy'r ymarfer culach yn 2023-24.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu'r gwahaniaethau yn y methodolegau a ddefnyddir ar gyfer ei arolygon rhanddeiliaid allanol a mewnol a'i fod yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro cyfyngiadau'r arolwg a arweinir yn fewnol.

**73.** Mae'r Pwyllgor yn canmol Archwilio Cymru am ragori ar ei darged arbedion cost o £1.4 miliwn, gan arbed £400,000 ar ben hynny yn 2023-24. Er bod y rhan fwyaf o'r arbedion hynny o ganlyniad i drosiant staff a swyddi gwâg, rydym yn cydnabod yr arbedion o £500,000 a nodwyd drwy waith y grŵp adolygu cynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys £238,000 mewn arbedion cylchol. Rydym yn llwyr gymeradwyo'r penderfyniad i ganolbwyntio ar sicrhau arbedion

gwirioneddol wrth bennu targedau'r dyfodol, yn hytrach nag ymgorffori tanwariant sy'n digwydd am resymau y tu hwnt i reolaeth Archwilio Cymru, a nodwn fod y targed arbedion cost ar gyfer 2024-25 wedi'i addasu i £400,000.

**74.** Rydym yn nodi'r penderfyniad i ailwampio'r arolwg ymgysylltu â staff yn 2023 ac yn croesawu'r gallu i barhau i feincnodi yn erbyn mynegai ymgysylltu Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Er ein bod yn cydnabod bod newid y dull gweithredu wedi arwain at golli'r Dangosydd profiad gweithwyr a fesurwyd yn erbyn sgoriau profiad gweithwyr thematig Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, rydym yn awyddus i ddeall a ystyriwyd datblygu Dangosydd i fesur boddhad staff mewn ffordd arall. Rydym yn falch y bydd canlyniadau'r arolwg staff yn parhau i gael eu cyhoeddi'n llawn ar wefan Archwilio Cymru er tryloywder ac i alluogi cymhariaeth o un flwyddyn i'r llall, a gofynnwn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi cyn y sesiynau craffu blynyddol yn nhymor yr hydref bob blwyddyn.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn manylu ar unrhyw ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu Dangosydd Perfformiad Allweddol amgen i fesur boddhad staff.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn parhau i gyhoeddi canlyniadau ei Arolwg Pobl blynyddol cyn i'r Pwyllgor gynnal ei waith craffu blynyddol ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sgôr "sicrwydd rhesymol" a roddodd TIAA wrth asesu mesurau seiberddiogelwch Archwilio Cymru yn dilyn ei archwiliad mewnol ac mae'n croesawu dull Archwilio Cymru o ymgysylltu ag arbenigwyr yn y maes hwn a chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer materion a allai godi.

# 3. Cynllun Blynyddol 2024-25 ac Adroddiad Interim 2024-25

**76.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd lunio Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim ar y cyd bob blwyddyn.[87]

**77.** Mae Cynllun Blynyddol 2024-25, a osodwyd ar 8 Ebrill 2024, yn amlinellu'r rhaglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn yn ogystal â gwybodaeth am ei huchelgeisiau hirdymor a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.[88]

**78.** Mae'r Adroddiad Interim[89] yn darparu asesiad o'r graddau mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2024-25, ac yn rhoi gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 30 Hydref 2024.

## Cynllun Blynyddol 2024-25

**79.** Dywed Archwilio Cymru fod y Cynllun Blynyddol, a osodwyd ar bwynt canol ei strategaeth bum mlynedd[90], wedi cael ei lywio gan adborth o arolwg diweddar o amrywiaeth eang o randdeiliaid.[91]

**80.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi materion yn ymwneud ag amseroldeb gwaith Archwilio Cymru ac yn dweud y bydd yn "cymryd sawl blwyddyn i'r rhaglen waith fawr honno ddychwelyd i'r amserlenni a fodolai cyn y pandemig".[92]

**81.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym mai dileu'r ôl-groniad yw ei brif flaenoriaeth yn fwy na dim arall cyn rhoi'r gorau i'w rôl ymhen cwpl o flynyddoedd. Er mwyn gwneud hynny, pwysleisiodd yr angen i gynnal lefel uchel o staff o safon uchel ac i gyrff sy'n cael eu harchwilio chwarae eu rhan wrth gyflwyno cyfrifon drafft o ansawdd uchel yn brydlon. Ychwanegodd:

> *"The world of auditing standards is constantly in flux and so we always need to deal with those, and I can't control any further*

[87] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[88] Cynllun Blynyddol 2024-25
[89] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024
[90] Archwilio Cymru: Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27, 28 Mehefin 2022
[91] Cynllun Blynyddol 2024-25, tudalen 5
[92] Cynllun Blynyddol 2024-25, tudalen 5

> *duties and responsibilities that the Senedd or the Government asks of me. But, putting those to one side, I'm confident that, given where we are at the moment, the progress that we're making, the arrangements that we've got in place, I will go and hand over a clean slate to my successor."*[93]

## Adroddiad interim

### Cyflawni'r rhaglen waith

**82.** Dywedir yn yr Adroddiad Interim:

> *"Cwblhawyd pob archwiliad o gyfrifon y GIG 2023-24 erbyn mis Mehefin 2024, a chwblhawyd yr holl archwiliadau a drefnwyd o gyfrifon llywodraeth ganolog erbyn mis Medi 2024. Rydym hefyd ar y trywydd iawn i ardystio'r rhan fwyaf o gyfrifon llywodraeth leol 2023-24 a baratowyd ar amser erbyn y dyddiad cau ar 30 Tachwedd."*[94]

**83.** Yn 2023-24, cyflawnodd Archwilio Cymru 85 y cant o'i gynhyrchion archwilio erbyn y terfyn amser statudol, neu'r terfyn amser y cytunwyd arno.[95] Nodir yn yr Adroddiad Interim bod Archwilio Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 100 y cant yn 2024-25.[96]

**84.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio fod Archwilio Cymru yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r holl archwiliadau llywodraeth leol lle cyflwynwyd cyfrifon i'w harchwilio erbyn y terfyn amser gofynnol, sef 30 Mehefin, gan nodi bod angen archwilio nifer fach o gyrff llywodraeth leol na wnaethant fodloni'r dyddiad cau hwnnw, a bod Archwilio Cymru yn rhagweld y bydd y rhain yn cael eu cwblhau erbyn mis Chwefror. Ychwanegodd:

> *"We've still got some 22-23 audits outstanding in three local government bodies and one national park. And these are issues that the client bodies are experiencing themselves, so we're working with them to support them. Obviously, we'll do the audit as soon as we can."*[97]

[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 381], 3 Hydref 2024
[94] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024, tudalen 4
[95] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Dangosydd 1
[96] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024, Dangosydd 1
[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 144 ac 146], 7 Tachwedd 2024

## Perfformiad

**85.** Mae'r Adroddiad Interim yn darparu data perfformiad ar gyfer 13 o 18 Dangosydd Perfformiad Allweddol Archwilio Cymru; nid oes data ar gael eto ar gyfer y pum Dangosydd sy'n weddill. Mae'r dangosyddion sydd wedi eu graddio fel rhai lle y mae "angen gwelliant sylweddol" ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Dangosydd 2 - Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol (y perfformiad hyd at 30 Medi 2024 oedd 78 y cant yn erbyn targed o 90 y cant, o gymharu â 76 y cant yn 2023-24).

- Dangosydd 18 - Cyfran yr hyfforddeion sy'n pasio'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (y perfformiad hyd at 30 Medi 2024 oedd 76 y cant yn erbyn targed o 90 y cant o leiaf, o gymharu ag 82 y cant yn 2023-24).[98]

**86.** Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio at ostyngiad mewn perfformiad o ran hyfforddeion yn pasio ar y cynnig cyntaf dros y blynyddoedd diwethaf, a briodolodd i agwedd fwy hamddenol a gymerwyd at fethu mewn arholiadau, ar ôl COVID yn y lle cyntaf, a nifer yr ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen hyfforddeion. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… I think that's reflected in, for example, the fact that some of the results that we've had in this financial year that have impacted this have been in respect of the 2023 cohort, where we've only now got five people in that group. So, as you can see, we had five people—three passed, two didn't. That takes your success rate through to 60 per cent, which pulls the overall target down. We've managed to recruit 26 trainees this year. The results we've had from them so far are really, really good, so I'm hopeful that that statistic now, that KPI, will improve."*[99]

## Strategaeth ar gyfer 2022-2027

**87.** Mae'r Adroddiad Interim yn rhoi gwybodaeth am y tri maes ffocws, a'r blaenoriaethau cysylltiedig, a nodwyd yn strategaeth Archwilio Cymru ar gyfer

[98] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024, tudalennau 21-25
[99] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 152], 7 Tachwedd 2024

2022-27.[100] Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd blaenoriaeth naill ai "ar y trywydd iawn" neu "ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach".[101]

**88.** Un flaenoriaeth yw "datblygu a gweithredu rhaglen monitro ansawdd tair blynedd i gefnogi ein dull sefydliad cyfan o reoli'r risg i ansawdd archwilio", a nodir bod "angen gwella" yn hyn o beth.[102]

**89.** Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio y rhesymau dros nodi hyn:

> *"I think what the interim report is reflecting is the fact that I would like to be further through that three-year monitoring programme than I am. Why am I not further through? Well, we've had resource constraints, we've had a key member of staff off sick. I'm putting additional capacity into the team, so I am hopeful that we will catch up—that's certainly my intention."*[103]

## Barn y Pwyllgor

**90.** Rydym yn falch o weld bod Archwilio Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyrraedd ei darged a darparu 100 y cant o'i gynhyrchion archwilio erbyn y terfyn amser statudol neu derfyn amser cytunedig arall. Er ei bod yn bryder bod rhai archwiliadau o 2022-23 heb gael eu cwblhau o hyd, nodwn fod yr oedi'n ymwneud â materion yn y cyrff a archwilir, ac rydym yn cydnabod y cymorth mae Archwilio Cymru yn ei ddarparu i'r cyrff hynny.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am y pedwar archwiliad sy'n weddill o gyfrifon 2022-23 a'r materion sydd wedi arwain at yr oedi.

**91.** Nodwn fod cyfran yr hyfforddeion sy'n pasio eu harholiadau lefel Proffesiynol ac Uwch ar y cynnig cyntaf wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae Archwilio Cymru yn priodoli hynny i fabwysiadu agwedd fwy hamddenol at fethiannau ar ôl COVID yn y lle cyntaf, a'r effaith y mae perfformiad nifer lai o hyfforddeion yn ei chael ar y targed cyffredinol. Yng ngoleuni ein trafodaethau blaenorol[104], a'r wybodaeth ddilynol a ddarparwyd mewn perthynas ag adolygu'r

[100] Archwilio Cymru: Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27, 28 Mehefin 2022
[101] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024, tudalennau 11-20
[102] Adroddiad Interim 2024-25, Hydref 2024, tudalen 18
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 7 Tachwedd 2024
[104] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, tudalen 33

cynllun hyfforddeion[105], rydym yn awyddus i ddeall pa gamau pellach y mae Archwilio Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn perfformiad a gofnodwyd yn yr Adroddiad Interim.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu sut mae'n ymateb i'r dirywiad mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd ar gyfer cyfradd llwyddiant hyfforddeion ar 30 Medi 2024.

**92.** Clywsom fod cyfyngiadau ar adnoddau wedi effeithio ar flaenoriaeth strategol Archwilio Cymru i roi rhaglen monitro ansawdd tair blynedd ar waith. Er ein bod ni'n cydnabod bod hyn yn cael sylw drwy ddarparu capasiti ychwanegol i'r tîm, mae gennym ddiddordeb mewn deall y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi'r rhaglen.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn manylu ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth gyflawni ei raglen monitro ansawdd tair blynedd.

[105] Archwilio Cymru, Ymateb: Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Chwefror 2024

# 4. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026

**93.** Cafodd yr Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026 ("yr Amcangyfrif")[106] ei lunio ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd a'i osod gerbron y Senedd ar 31 Hydref 2024, yn unol ag adran 20(1) o'r Ddeddf.[107]

**94.** O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru osod eu hamcangyfrifon ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Dywed Rheol Sefydlog 20.22:

> *"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol [y Pwyllgor Cyllid] o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."*[108]

**95.** Ar gais y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn dilyn addasu'r Amcangyfrif ar gyfer 2020-21[109], cyflwynir Amcangyfrif 2025-26 mewn dwy ran:

- Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb
- Rhan 2 – Gwybodaeth ategol.

## Cyd-destun

**96.** Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi Datganiad o Egwyddorion[110] y mae'n disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol. Mae'r Pwyllgor wrthi'n adolygu'r Datganiad o Egwyddorion, ar ôl ymgynghori â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ym mis Mai 2023.[111]

[106] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2025-2026
[107] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[108] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22
[109] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd) – Amcangyfrif wedi'i addasu o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a Chynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020
[110] Datganiad o egwyddorion ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, Gorffennaf 2021
[111] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, 4 Mai 2023

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:

Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.

Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.

Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.

Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

**97.** Ar 19 Gorffennaf 2024, anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd lythyr at y Pwyllgor yn nodi gwahanol ffactorau i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.[112]

**98.** Pan ofynnwyd sut y mae Amcangyfrif 2025-26 yn adlewyrchu dull darbodus o weithredu Archwilio Cymru ac yn ystyried y pwysau ar gyllid cyhoeddus, dywedodd y Cadeirydd wrthym:

> *"The board has been very much aware of the pressures on public finances when considering the estimate for 2025-26. I think that this has manifested itself in the requirements to continue to provide high-quality audit in the public sector to ensure the best use of public funding and also in the continual value-for-money drive in Audit Wales's work."*[113]

[112] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Gorffennaf 2024
[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 7 Tachwedd 2024

**99.** Eglurodd y Cadeirydd nad yw Amcangyfrif 2025-26 mewn gwirionedd yn cynnwys cynigion sylweddol ar gyfer meysydd o wariant newydd, ei fod yn canolbwyntio ar gynnal cynnydd y llynedd o ran y flaenoriaeth sefydliadol i ddileu ôl-groniadau gwaith, a'i fod yn adlewyrchu cynnydd cymharol gymedrol a realistig o ran cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru. Nododd fod Bwrdd y Swyddfa Archwilio wedi rhoi her sylweddol i'r weithrediaeth wrth ystyried amcangyfrifon drafft ac, er ei fod yn cydnabod bod dod o hyd i arbedion parhaus yn dod yn anoddach, cadarnhaodd fod y Bwrdd yn awyddus i sicrhau arbedion parhaus ac y byddai'n parhau i osod targedau arbedion.[114]

## Trosolwg

### Cais cyffredinol am gyllid

**100.** Mae'r Amcangyfrif yn dangos cyfanswm gwariant o £28.401 miliwn yn 2025-26, sef cynnydd o £1.466 miliwn neu 5.4 y cant o'i gymharu â 2024-25. Mae hefyd yn dangos incwm Ffioedd Archwilio o £18.610 miliwn yn 2025-26, sef cynnydd o £1.134 miliwn neu 6.5 y cant o'i gymharu â 2024-25.[115]

**101.** O ran cyllid adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru, mae Archwilio Cymru yn gofyn am £9.791 miliwn o gyllid[116]. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £332,000 (3.5 y cant). Y newid i linell sylfaen cyllid y Gronfa Gyfunol, nad yw'n cynnwys y gostyngiad cylchol yng nghostau'r Fenter Twyll Genedlaethol (£130,000) a'r tâl cyfalafu o dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (£187,000), yw £275,000 (2.9 y cant).[117]

**102.** Yn nhermau arian parod, mae Archwilio Cymru yn gofyn am £9.236 miliwn, sef cynnydd o £109,000 neu 1.2 y cant.[118] Nid yw Archwilio Cymru wedi darparu ffigur arian parod ar gyfer y newid o flwyddyn i flwyddyn gan ystyried newidiadau cyllid y Fenter Twyll Genedlaethol.[119]

**103.** Wrth sôn am y ffordd y cyflwynwyd Amcangyfrif 2024-25 y llynedd a'r heriau a brofwyd wrth ddehongli'r ffigurau cyffredinol, dywedodd y Pwyllgor ei fod yn gofyn am fanylder "o ran y cynnydd y gofynnir amdano flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran arian parod ac adnoddau" a nododd sut yr hoffai i ffigurau gael eu cyflwyno.[120]

---

[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 12-13], 7 Tachwedd 2024
[115] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2025-2026, tudalen 6
[116] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2025-2026, tudalen 6
[117] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2025-2026, Arddangosyn 8
[118] Rhan 1 – Cwmpas y gyllideb – Amcangyfrif 2025-2026, tudalen 7
[119] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol –Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8
[120] Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, paragraff 224 ac Argymhelliad 10

## Symudiadau mewn cyfalaf gweithio

**104.** Yn dilyn newid yng ngwerth y symudiadau yn llinell y gyllideb ar gyfer cyfalaf gweithio yn Amcangyfrif 2024-25 (sy'n gysylltiedig â gwariant ar ddadfeiliadau yn y flwyddyn flaenorol), gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am symudiadau cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon y dyfodol.[121]

**105.** Yn 2025-26, mae gwerth symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn lleihau o £200,000 yn 2024-25 i £40,000 (oherwydd y disgwylir rhyddhau darpariaeth dadfeiliadau ar gyfer swyddfa'r gorllewin).[122]

**106.** Pan ofynnwyd a oes meysydd eraill lle mae cyllid yn cael ei symud rhwng llinellau yn y gyllideb, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol na fydd unrhyw gyllideb na chyllid yn cael eu symud rhwng llinellau cyllideb.[123]

**107.** Mae Archwilio Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor o'r blaen bod symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn ymwneud ag arian wrth gefn arferol "ar gyfer symudiadau ar ddiwedd y flwyddyn" a'i bod yn amhosibl rhagweld y gwerth.[124]

**108.** Gan gydnabod bod cynnwys elfennau o symudiadau amcangyfrifedig mewn cyfalaf gweithio wedi achosi rhywfaint o ddryswch y llynedd, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod elfen wrth gefn unrhyw symudiad mewn cyfalaf gweithio wedi ei ddileu gan na ellir ei amcangyfrif yn gywir ymlaen llaw. Gan ymhelaethu ar hyn, dywedodd:

> *"The only movement that we've included is the area where we have some real certainty, which is that dilapidations provision for our west Wales office. Any actual movements will be reported in full in our annual report and accounts at year end. In the event that we have unused cash, that's returned in full to the consolidated fund, as we have in previous years. In the event that we have an increased cash requirement in 2025-26 as a result of those sorts of movements, they might need to be reflected in a supplementary estimate, because we have no*

---

[121] Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, paragraff 169 ac Argymhelliad 13
[122] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 11
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 7 Tachwedd 2024
[124] Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, paragraff 166

> *provision to carry cash forward from one year to the other, because of that full repayment at year end."*[125]

**109.** Pan ofynnwyd a yw Archwilio Cymru yn rhagweld unrhyw faterion a allai olygu bod angen cynyddu'r swm o arian parod y gofynnir amdano drwy gyllideb atodol yn 2025-26, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol wrthym ei bod yn anodd rhagweld tan ddiwedd y flwyddyn.[126]

## Arbedion

**110.** Mae'r amcangyfrif yn amlinellu targed arbedion o £200,000 yn 2025-26, o'i gymharu â £400,000 yn 2024-25.

**111.** Wrth fynd i'r afael â'r targed is yn 2025-26, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol bwysigrwydd gosod targedau arbedion ond nododd ei bod yn dod yn fwyfwy anodd eu cyflawni:

> *"… our savings target relates only to the WCF element and, bluntly, that therefore relates to staff in our corporate areas and some audit staff who are WCF funded and our non-staffing budgets, which, as the committee knows, over the last few years, we've attacked very vigorously around travel and subsistence and our estate, and so on."*[127]

## Terfynau amser archwilio

**112.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod "mesurau sylweddol" wedi eu cyhoeddi yn Lloegr i "fynd i'r afael ag ôl-groniad sy'n gwaethygu mewn archwilio lleol ac adfer tryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario"[128], ar ôl i "gyn lleied ag 1% o gyrff lleol gyhoeddi eu cyfrifon mewn pryd yn 2023-24, a disgwylir i'r ôl-groniad gynyddu i oddeutu 1,000 o archwiliadau eleni".[129]

**113.** Tra'n cydnabod ein bod ni yng Nghymru "mewn sefyllfa llawer gwell gydag ôl-groniad hanesyddol cymharol isel ar ein prif archwiliadau", mae Archwilio Cymru yn nodi ein bod yn "dal ar ei hôl hi o ran lle y dylem fod" ac mae'n dweud

[125] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 22 a 24], 7 Tachwedd 2024
[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 26], 7 Tachwedd 2024
[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 18], 7 Tachwedd 2024
[128] Llywodraeth y DU, Datganiad i'r Wasg: Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, 31 Gorffennaf 2024
[129] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 5

mai nod yr Amcangyfrif yw "cynnal momentwm y gwaith hwn fel nad ydym yn niweidio'r cynnydd da a wneir ar hyn o bryd".[130]

**114.** Nod Archwilio Cymru yw dychwelyd i amserlen fwy traddodiadol ar gyfer y GIG a sectorau llywodraeth leol erbyn archwiliadau cyfrifon 2025-26.[131] Mae'r effaith ar gyllid Archwilio Cymru i'w weld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n dangos cynnydd mewn costau staff yn 2025-26 a 2026-27, cyn i'r costau hynny leihau am weddill blynyddoedd y cynllun i "adlewyrchu ein 'cyflwr sefydlog' oni bai ein bod yn gallu archwilio cyfleoedd am waith ychwanegol".[132]

## Costau staff

**115.** Mae'r Amcangyfrif yn seiliedig ar gyflogi 312 o staff cyfwerth ag amser llawn, sydd 12 yn fwy o'i gymharu â 2024-25. Mae'r cynnydd hwn mewn staff yn gysylltiedig â mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio ac mae'n "cael ei dalu'n gyfan gwbl o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig".[133]

**116.** O ran yr effaith ar feysydd gwaith eraill neu gostau cysylltiedig, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"… fundamentally no impact on the Welsh consolidated fund side of the organisation. We believe, on the additional staff-related costs like training and development and travel and so forth, there may be some fluctuation but we don't believe there's a requirement for us to reflect that explicitly in the estimate."*[134]

**117.** Aeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ymlaen i ddweud:

> *"… we've had to accelerate some training—for example, auditing of groups—but that's been contained within the existing budget. You'll note that, over the last couple of years, T&S costs, travel and subsistence costs, have come down. You'll see in this estimate we're proposing to increase them a little bit this year. That's because staff are increasingly having to go back to audited bodies, at the audited bodies' request and also*

[130] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 5
[131] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalen 22
[132] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 25
[133] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 10
[134] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 7 Tachwedd 2024

> *because we believe that that's the best way to do an efficient, high-quality audit. So, there will be some impact there, but everything we're containing within our existing resources."*[135]

**118.** Roedd cyflog staff yn elfen sylweddol o Amcangyfrif 2024-25, a nodwyd bod hynny "er mwyn dechrau dod â'n graddfeydd cyflog yn unol ag eraill, ac i atal staff rhag ymadael i rannau o'r sector cyhoeddus lle mae'r cyflog yn well ac i'r sector preifat". Roedd yn cynnwys "cynnydd yn ein cyllideb gyflogau i wneud iawn am y diffyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf (3%) a 5% arall fel amcangyfrif o'r codiad cyflog yn 2024-25". Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2024-25 hefyd yn nodi'r canlynol:

> *"Ddwy flynedd yn ôl, cytunwyd yn rhan o setliad a negodwyd, y bydd Lwfans Teithio blynyddol o £3,350 a delir i'r staff yn cael ei ddiddymu o fis Ebrill 2024. Yn unol â'r setliad hwnnw, bydd cynnydd o £900 yn yr holl bwyntiau cyflog o'r dyddiad hwnnw*[136]*, ar wahân i unrhyw ddyfarniad cyflog y cytunir arno."*[137]

**119.** Mae'r amcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn gwneud darpariaeth ar gyfer "codiad cyflog oherwydd chwyddiant", yn amodol ar drafodaethau gydag Undebau Llafur yn 2025.[138]

**120.** Gofynnom am eglurhad o'r hyn y mae Archwilio Cymru yn ei olygu pan fo'n sôn am "godiad cyflog oherwydd chwyddiant" a swm cyllid Cronfa Gyfunol Cymru y cyllidebwyd ar ei gyfer yn yr Amcangyfrif at y diben hwn. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol bod rywfaint o nerfusrwydd ynghylch cynnwys rhagdybiaeth am gyflog y flwyddyn nesaf wrth baratoi'r Amcangyfrif, ond dywedodd fod y sefyllfa ychydig yn wahanol yn awr:

> *"Last year the relationship with our unions was really, really positive. That was manifested in one way in the way that we were able to settle on pay for 2024-25 early, so that staff saw the benefit of that from April. We'd very much like to do similar this year, and so I want our approach to be complete transparency and openness with our union partners. So, we have factored into the estimate you've got before you an assumption that our pay bill for next year will increase by 3.5*

[135] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 37], 7 Tachwedd 2024
[136] Heblaw hyfforddeion a phrentisiaid yr addaswyd eu cyflogau yn 2022–23 i adlewyrchu'r effaith a gafodd colli'r lwfans ar gyflogau wedi eu meincnodi
[137] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2024-25, tudalennau 6 ac 14
[138] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 10

> *per cent, which we know we'll be able to afford. If we're to go above that in any way then it can only be affordable if we can identify ongoing recurring savings, which, as I touched on earlier, is not impossible, but challenging. But that would be our position for the opening conversations with the unions."*[139]

**121.** Clywsom fod Archwilio Cymru yn bwriadu dod â thrafodaethau i ben gyda'r Undebau Llafur erbyn mis Mawrth er mwyn ei adlewyrchu yng nghyflog staff o fis Ebrill 2025.[140]

**122.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn ystyried cyfradd trosiant staff a ragwelir o 5 y cant.[141] O ran y risg sy'n gysylltiedig â'r ffigur hwn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai trosiant staff o 5 y cant oedd y rhagdybiaeth weithredol ers blynyddoedd lawer, gan ychwanegu:

> *"I don't believe we've seen turnover lower or significantly lower than that at all, in my period of time. And as we've discussed previously in the committee, currently, it's a fair bit higher still. So, I think the level of risk of falling below that level is small. If it were to manifest itself, and I don't think it will, but, if it were, it's a relatively easy thing for us to manage in-year—not desirable, because it would mean holding off on training, recruitment and so forth. But it's, in my view, a very small level of risk going into next year."*[142]

**123.** Er nad oedd yn cael ei adlewyrchu yn yr Amcangyfrif, fe wnaethom gwestiynu sut bydd yr 1.2 pwynt canran o gynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref Llywodraeth y DU[143] yn effeithio ar gostau staff yn 2025-26. Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol fod amseriad y cyhoeddiad yn golygu na chafodd ei gynnwys yn yr Amcangyfrif, ond roedd yn rhagweld y byddai cyllid yn cael ei 'basbortio' o San Steffan i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, gan nodi'r tebygolrwydd o Amcangyfrif atodol ddechrau'r flwyddyn nesaf. Ychwanegodd:

> *"In terms of the split of that additional cost between the Welsh consolidated fund and fees, my proposal would be that we*

---

[139] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 57], 7 Tachwedd 2024
[140] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 68], 7 Tachwedd 2024
[141] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 10
[142] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 7 Tachwedd 2024
[143] Llywodraeth y DU, Datganiad i'r Wasg: Chancellor chooses a Budget to rebuild Britain, 30 Hydref 2024

*seek that directly through the WCF, because of course audited bodies will be facing the same costs. They ought to be compensated for their additional employer costs, but not for additional audit fees. So, that would seem the fairest way of doing it. In terms of quantum it's around about £200,000 of additional cost."*[144]

## Llety

**124.** Ar gyfer costau llety, mae amcangyfrif 2025-26 yn dangos gostyngiad bach o ran adnoddau, ond £123,000 o gynnydd o ran arian parod.

**125.** Roedd Amcangyfrif Archwilio Cymru 2024-25 yn cynnwys gostyngiad o £100,000 o ran arian parodo i adlewyrchu cyfnod di-rent sy'n gysylltiedig â'i swyddfa yng Nghaerdydd.[145] Y llynedd, roedd y Pwyllgor yn ansicr ynghylch sut roedd arian parod yn gysylltiedig â'r cyfnod di-rent yn cael ei ddefnyddio yn 2024-25, a cheisiodd sicrwydd na fyddai hyn yn arwain at gynnydd mewn arian parod pan fyddai'r cyfnod di-rent yn dod i ben. Mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor[146], dywedodd Archwilio Cymru:

*"Fel y nodwyd yn yr Amcangyfrif, rydym wedi lleihau ein gofyniad ariannol ar gyfer 2024-25 i adlewyrchu'r cyfnod di-rent y cytunwyd arno yn y les. Felly bydd cynnydd cysylltiedig yn y gofyniad arian parod pan ddaw'r cyfnod di-rent hwn i ben."*[147]

**126.** Wrth fynd ar drywydd y mater hwn, fe wnaethom holi Archwilio Cymru i ba linellau cyllidebol y cafodd yr arian hwn ei ddyrannu yn 2024-25 a pha effaith y mae hynny'n ei chael ar y meysydd gwariant hynny yn 2025-26. Atebodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol:

*"We accounted for the resource in 2024-25, as we have 2025-26 and thereafter, but we didn't have that cash requirement last year. We now have that because the rent-free period is over, so we've now got that cash requirement in the budget for 2025-26."*[148]

[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 50], 7 Tachwedd 2024
[145] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol, Amcangyfrif 2024-25, tudalen 16
[146] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, paragraff 229 ac Argymhelliad 15
[147] Archwilio Cymru, Ymateb: Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Chwefror 2024
[148] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 7 Tachwedd 2024

## Newidiadau arfaethedig i gyllid

### Gwaith Archwilio

**127.** Mae'r Amcangyfrif yn gofyn am gynnydd o £172,000 o Gronfa Gyfunol Cymru yn ymwneud â gwaith archwilio, gan ddod â'r gyllideb arfaethedig i £4.762 miliwn yn 2025-26.[149]

**128.** Nodir yn yr Amcangyfrif:

> *"Mae gwaith archwilio a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru yn cael ei gostio ar yr un sail – hynny yw, defnyddio'r cyfraddau ffioedd a gyfrifir i adennill dim mwy na'r gost lawn ac felly mae wedi cynyddu yn unol â'n cynnydd arfaethedig o 1.7% yn y gyfradd ffioedd ar gyfer 2025-26."*[150]

**129.** Mae hyn yn cyllido gweithgareddau fel Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth am Arian Cenedlaethol a gwaith cysylltiedig, amser staff sy'n gysylltiedig â'r Fenter Twyll Genedlaethol, gwaith i archwilio themâu sy'n deillio o waith cyfrifon, a gwaith i ymateb i faterion a godwyd gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig.[151]

**130.** Yn ogystal, mae'r Amcangyfrif yn amlygu'r canlynol:

> *"… ar gyfer 2025-26, rydym wedi nodi £97,000 arall o waith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd a chylch etholiadol pedair blynedd."*[152]

**131.** Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Bwyllgorau'r Senedd ar y mater hwn yng Nghyfnod 1 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ym mis Tachwedd 2023, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai symud o bum mlynedd i gylchoedd etholiadol pedair blynedd yn arwain at gynnydd 25 y cant o ran amlder archwiliadau ac adroddiadau datblygu cynaliadwy o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[153]

[149] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8
[150] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 20
[151] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 20
[152] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 20
[153] Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd, 3 Tachwedd 2023

**132.** Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol beth oedd diben y £97,000 o arian parhaus:

> *"… to undertake a body of work across what is now 56 bodies captured by the future generations Act. That is relatively fixed and defined by legislation, so I have to do it. The £97,000 is the arithmetic consequence of squeezing that work from five years into four."*[154]

## Budd ehangach i'r sector cyhoeddus

**133.** Mae'r Amcangyfrif yn ceisio £30,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer "hyfforddiant ariannol ledled Cymru" Archwilio Cymru, gan gynyddu cyllid yn y maes hwn i £900,000 yn 2025-26. Dywedir yn yr Amcangyfrif bod y cynnydd yn "caniatáu cynnydd cyflog oherwydd chwyddiant o fis Ebrill 2025".[155] Mae Arddangosyn 9 yn rhestru'r cynnydd mewn costau, gyda £12,000 yn ymwneud â secondiadau hyfforddeion a phrentisiaid, £8,000 ar gyfer costau hyfforddi a £10,000 ar gyfer rheoli rhaglenni. Nid oes unrhyw newid i gost y gynhadledd flynyddol, sef £20,000.[156]

**134.** O ran codiadau costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog o fewn y £30,000 o gynnydd cyffredinol, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio at gost hyfforddiant proffesiynol ar gyfer astudiaethau cyfrifeg a chostau rheoli rhaglenni yn ymwneud ag amser a gollir gan reolwyr archwilio ac arweinwyr archwilio sy'n gorfod cynorthwyo'r rhaglen.[157]

**135.** Ar wahân i hynny, nodir yn yr Amcangyfrif £10,000 o gynnydd yn y gyllideb ar gyfer ei waith Cyfnewid Arfer Da, sy'n cynnwys digwyddiadau, gweminarau, podlediadau ac allbynnau eraill. Nodir yn yr Amcangyfrif fod amser staff sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael ei godi ar gyfraddau ffioedd.[158]

**136.** Pan ofynnwyd iddo sut mae'r rhaglen Cyfnewid Arfer Da yn dangos gwerth am arian, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrthym fod y tîm yn cynnwys tri aelod o staff ac yn gwneud llawer mwy na'r hyn sy'n ddisgwyliedig. Ychwanegodd:

> *"If you're interested in its value for money, I would point primarily to the feedback that we get from participants, which*

[154] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 7 Tachwedd 2024
[155] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8 a thudalen 20
[156] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 9
[157] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 95], 7 Tachwedd 2024
[158] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8 a thudalen 21

*is consistently in the high eighties and above in terms of satisfaction with the events and outputs we produce."*[159]

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

**137.** Mae cyllid ar gyfer gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol yn amodol ar gynnydd/gostyngiadau bob yn ail flwyddyn i gostau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data. Mae £130,000 o ostyngiad yng nghostau'r gwaith hwn o'i gymharu â 2024-25 gan nad yw'r Amcangyfrif ar gyfer 2025-26 yn cynnwys costau cylchol y Fenter.[160]

## Costau rhedeg eraill

**138.** Mae Archwilio Cymru yn amlinellu newidiadau i'w gostau rhedeg eraill sy'n cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys y cynnydd a ganlyn:

- £25,000 (7.8 y cant) ar gyfer costau llywodraethu Archwilio Cymru;
- £7,000 (3.4 y cant) ar gyfer costau staff a TGCh sy'n ymwneud â dadansoddi data;
- £40,000 (28.6 y cant) ar gyfer costau seiberddiogelwch;
- £5,000 (3.9 y cant) ar gyfer costau staff rheoli/cydymffurfio'r Gronfa Gyfunol;
- £3,000 (3.5 y cant) ar gyfer costau staff sy'n gysylltiedig ag ansawdd archwilio;
- £1,000 (1.3 y cant) ar gyfer costau amser teithio;
- £12,000 (16.4 y cant) ar gyfer costau dibrisiant IFRS16.[161]

**139.** Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cynnydd o £25,000 ar gyfer costau llywodraethu yn ymwneud â chomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd, ac mae'n arfer da ei gynnal bob tair i bum mlynedd. Dywedodd fod yr adolygiad annibynnol diwethaf wedi digwydd yn 2021 ar gost o tua £21,000 ynghyd â TAW.[162]

[159] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 97], 7 Tachwedd 2024
[160] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8 a thudalen 22
[161] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 8
[162] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 122], 7 Tachwedd 2024

**140.** O ran effaith y swyddogaeth dadansoddi data, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y rhan fwyaf o'r enillion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gostyngiad mewn ffioedd a ragwelir ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd fod offer dadansoddi data hefyd yn gwella ansawdd yr archwiliadau ac yn arwain at arbedion uniongyrchol i Archwilio Cymru neu i gyrff sy'n cael eu harchwilio:

> *"We produced some work recently that identified direct savings from the prescription of medicines for community pharmacies, amounting to over, I believe, £700,000. That was a direct result of a piece of data analytics work that we had undertaken."*[163]

**141.** Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod y buddsoddiad ychwanegol o £40,000 mewn seiberddiogelwch ar gyfer creu copïau wrth gefn na ellir eu newid:

> *"This is a relatively new development whereby we would have backups that can't be destroyed or tampered with by cyber attackers, and that's a key part of a criminal's strategy around ransomware."*[164]

**142.** Mae addasiadau nad ydynt yn arian parod, sy'n cynnwys newidiadau i ddibrisiant a llog, cyfalafu IFRS16, a symudiadau cyfalaf gweithio, yn newid gymaint â £223,000 (67.2 y cant).[165]

## Cyfalaf

**143.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi costau cyfalaf o £467,000, sy'n cynnwys £187,000 ar gyfer IFRS16 (heb fod yn arian parod) sy'n gysylltiedig â symud swyddfa gorllewin Cymru. Ac eithrio IFRS16, mae Archwilio Cymru yn gofyn am £280,000 o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer ei Raglen Newid a'i Strategaeth TGCh[166]

**144.** Mae disgwyl i gam olaf rhaglen symud swyddfa Archwilio Cymru gael ei gwblhau yn 2025-26, a'r bwriad yw symud i swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mhenlle'r-gaer ym mis Ebrill 2025. Mae'r Amcangyfrif yn awgrymu y bydd symud yn arbed £10,000 y flwyddyn ac yn nodi £60,000 o gyllid cyfalaf yn 2025-26 ar gyfer "newidiadau angenrheidiol i le y swyddfa".[167]

[163] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 105 a 112], 7 Tachwedd 2024
[164] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 101], 7 Tachwedd 2024
[165] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 24
[166] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 7
[167] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 16

**145.** Amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol pam y mae angen y buddsoddiad cyfalaf:

> *"I'm pleased to say that the new office is shared space with the Welsh Government, so it makes good use of surplus public sector space. But, of course, we do need to fit that out for our own requirements, including important privacy and security measures, because of the confidentiality of the information that we're dealing with."*[168]

**146.** O ran strategaeth ddigidol Archwilio Cymru, dywedir yn yr Amcangyfrif y bydd cydbwysedd cyllid y rhaglen newid yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwelliannau yn y feddalwedd sy'n cael ei defnyddio i reoli gwaith archwilio ynghyd ag "uwchraddio a gwelliannau angenrheidiol" i'w systemau gwybodaeth rheoli corfforaethol. Mae hefyd yn bwriadu datblygu "prawf cysyniad" ar gyfer Cam 2 o'i blatfform archwilio ariannol fel rhan o'r strategaeth ehangach i foderneiddio dull Archwilio Cymru o archwilio.[169]

**147.** Ac eithrio'r dyraniad nad yw'n arian parod ar gyfer IFRS16, mae'r cyllid cyfalaf y gofynnwyd amdano ar gyfer 2025-26 £30,000 yn is na'r gyllideb ar gyfer 2024-25 (£310,000). Dywed Archwilio Cymru fod hyn yn gysylltiedig â'r "diwydiant yn symud tuag at atebion TG ar sail cwmwl gyda rhent blynyddol yn hytrach na buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw" ynghyd â chwblhau ei brosiect gweithleoedd y dyfodol. Mae cyllidebau cyfalaf yn y dyfodol hefyd yn dangos gofyniad cyllido cymharol unffurf.[170]

**148.** Clywsom fod rhan fawr o raglen gyfalaf Archwilio Cymru yn ymwneud â gwariant TGCh ar y rhaglen dreigl tair blynedd o amnewid gliniaduron, yn ogystal ag unrhyw ddisodli/uwchraddio systemau fel rhan o'i raglen newid.[171]

**149.** Gwnaethom drafod risgiau, amserlenni a chost bosibl 'prawf cysyniad' ar gyfer Cam 2 y llwyfan archwilio ariannol gydag Archwilio Cymru. Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod Archwilio Cymru yn defnyddio llwyfan o safon diwydiant nes iddo fuddsoddi rhwng £100,000 a £150,000 yn datblygu ei system ei hun yn SharePoint dair blynedd yn ôl. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"To put that in context, for the previous industry-standard system we paid £80,000 a year, in terms of licensing. So, if we*

[168] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 108], 7 Tachwedd 2024
[169] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 16
[170] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 15
[171] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 115], 7 Tachwedd 2024

> *assume a 10-year lifespan for our system, that is a very significant saving to the public purse—well over £0.5 million. What we want to do next is to build in some greater automation into that system to improve it still further. That's what we're proposing in this estimate. Our expectation is we'll go about that in the same way, so largely driven in-house, with a bit of external consultancy drawn in. I believe we're talking in the region of about £50,000 for that work."*[172]

## Ffioedd archwilio

**150.** Mae Archwilio Cymru yn amlinellu £1.134 miliwn (6.5 y cant) o gynnydd amcangyfrifedig yn incwm ei ffioedd ar gyfer 2025-26 o'i gymharu â 2024-25. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynlluniau i gyflawni mwy o waith archwilio nag mewn blwyddyn arferol wrth i Archwilio Cymru leihau ei ôl-groniad o archwiliadau a chyflwyno terfynau amser cwblhau.[173]

**151.** Mae Archwilio Cymru yn cynnig cadw'r cynnydd cyfartalog yn ei gyfraddau ffioedd i lai nag 1.7 y cant fel y nodir yn ei gynllun ffioedd drafft, sydd ynghlwm wrth yr Amcangyfrif.[174]

**152.** Dywed Archwilio Cymru fod y cynnydd "cymedrol" yn ei gyfraddau ffioedd ar gyfer 2025-26 wedi'i sbarduno'n rhannol gan arbedion maint sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y staff archwilio a gyflogir wrth iddo glirio ei ôl-groniad o waith. Unwaith y bydd yr ôl-groniad wedi ei glirio, mae'n bosibl y bydd cynnydd anghymesur mewn cyfraddau ffioedd o ganlyniad.[175]

**153.** Wrth fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ffioedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod costau wedi cael eu lleihau cystal ag y bo modd, ond ychwanegodd:

> *"I've got to be open: we are also benefiting this year because we are essentially a little overstaffed, to try to catch up with the backlog of work we face, and those fee-earning staff contribute to our organisational overheads. So, that is one of the reasons why, this year, we're able to increase fee rates by only 1.7 per cent, but anticipate a higher than that increase in our staff bill, bluntly. That's good for everybody this year, but, of course, we*

[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, [paragraff 118], 7 Tachwedd 2024
[173] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, Arddangosyn 6
[174] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 32
[175] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 14

*anticipate that, in two or three years' time, that will start to unwind as we've dealt with the backlog and are back to a steady state."*[176]

**154.** Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol y gallai rheoli'r newid i gyflwr sefydlog arwain o bosib at gynnydd uwch na'r disgwyl mewn cyfraddau ffioedd yn y blynyddoedd i ddod. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"The more interesting and exciting option, I believe, would be for us to maintain our staffing at around that level, but use that additional resource to broaden our portfolio of work, so to stretch outside the statutory work that we're required to deliver, keep that as our No. 1 focus, but to spread into other areas of commissioned work. Now, if we were to do that, I'd be very keen to engage with the committee about the desirability of that and how we go about it, and the Welsh Government as well. But it seems to me a win-win, because it's good for Audit Wales, it's good for audited bodies in terms of the fees that we have to charge them, because it's making a small net contribution to the public purse as a result."*[177]

**155.** Yn dilyn adolygiad o weithredu safon ansawdd archwilio newydd (ISA315), mae'r Amcangyfrif yn nodi bod Archwilio Cymru wedi gallu nodi arbedion pellach yn ei ddull archwilio sy'n golygu ei fod yn gallu lleihau ei raddfeydd ffioedd cyfartalog ar gyfer archwilio cyfrifon mewn cyrff Llywodraeth Leol 3 y cant ar gyfartaledd.[178]

**156.** Ymhelaethodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ar y mater hwn drwy ddweud:

> *"We're seeing that with the larger bodies, and that's playing out in the fee scales, which obviously are local government fee scales. I would say that what we're seeing in the central Government, those smaller bodies, is actually not the same picture. So, in some cases, we may see some increases there. And of course, even in local government bodies, the fee scales are there, the fee rates are there, but the amount of time that we have to spend on an audit depends as much on the quality*

[176] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 7 Tachwedd 2024
[177] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 7 Tachwedd 2024
[178] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 13

> *of the information that we're given as the amount of work that we need to do to meet auditing standards as well."*[179]

**157.** Cafodd Archwilio Cymru chwe ymateb i'r ymgynghoriad ar ei Gynllun Ffioedd drafft, ac mae hefyd yn cyfeirio at ymgynghoriad ar wahân gydag Un Llais Cymru, fel corff cynrychioliadol Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Cynllun Ffioedd yn dweud bod newidiadau i Gynghorau Tref a Chymuned yn adlewyrchu cynigion sy'n gysylltiedig â phrofiad Archwilio Cymru o'r drefn archwilio newydd sydd wedi bod ar waith ers 2020.[180]

**158.** Pan ofynnwyd a fyddai cost archwilio yn cynyddu i Gynghorau Tref a Chymuned yn 2025-26, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio:

> *"No, not necessarily, really, other than for the fee rate increases themselves. I think that what you'll see with the new fee scales is a reflection of our experience over the last three years. The previous fee scales were based on certain assumptions when we took the work back in-house. The reality of the situation over the last three years and the data that we've got proves that, actually, we were probably overly optimistic, and so we've had to adjust the fee scales accordingly."*[181]

## Barn y Pwyllgor

**159.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull darbodus Archwilio Cymru o baratoi'r Amcangyfrif hwn, gan roi sylw dyledus i'n Datganiad o Egwyddorion a'r rhagolwg cyllidol anodd yr ymdriniwyd ag ef yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet. Gan hynny, rydym wedi dod i'r casgliad bod Amcangyfrif 2025-26 yn rhesymol ac yn gymesur.

**160.** Er ein bod ni'n parhau i wynebu rhai heriau o ran deall y cais am gyllid cyffredinol, rydym yn cydnabod y gwelliannau y mae Archwilio Cymru wedi eu gwneud i'r ffordd y cyflwynir yr Amcangyfrif mewn ymateb i'n hargymhellion blaenorol. Mae'r wybodaeth ategol i'r Amcangyfrif yn cyflwyno 2.9 y cant o gynnydd yn y llinell sylfaen adnoddau, y mae Archwilio Cymru yn ei gymharu (yn y troednodyn i baragraff 1) â chynnydd o 1.2 y cant mewn arian parod.[182] Nodwn fod Arddangosyn 8 yn dangos bod y gostyngiad dwy flynedd o £130,000 yng

---

[179] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraffau 130-131], 7 Tachwedd 2024
[180] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 31
[181] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 7 Tachwedd 2024
[182] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2025-26, tudalen 3

nghostau'r Fenter Twyll Genedlaethol, y cafodd adnoddau ar ei chyfer eu ceisio a'u dyrannu yn sgil hynny ar gyfer 2024-25, yn cael ei gyfrif y tu allan i'r llinell sylfaen adnoddau. Fodd bynnag, mae hyn yn groes i'r dull o gyfrifo'r cynnydd yn yr arian a geisir gan Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n cynnwys cyllid cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol. Fel y cyfryw, nid yw'n ymddangos bod y newidiadau canrannol a nodir gan Archwilio Cymru yn y paragraff cyntaf yn gymaradwy. Nodwn hefyd nad yw cyflwyno'r Gyllideb Refeniw, yn Atodiad 1, yn adlewyrchu'r dull o gynnwys costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol y tu allan i'r llinell sylfaen adnoddau. Fel y mynegwyd yn ein hadroddiad ar Amcangyfrif 2024-25, mae angen manylder arnom o ran y cynnydd y gofynnir amdano flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran arian parod ac adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pam y mae Archwilio Cymru yn cynnwys ffigur llinell sylfaen. Fodd bynnag, os yw Archwilio Cymru yn bwriadu darparu ffigur llinell sylfaen adnoddau fel prif newid yn y wybodaeth ategol, byddai'n ddefnyddiol ym marn y Pwyllgor gweld ffigur llinell sylfaen arian parod cyfatebol.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn adolygu'r ffordd y cyflwynir ei Amcangyfrif ac yn ystyried sut y gall ddarparu mwy o dryloywder ac eglurder ynghylch ei ffigur pennawd.

**161.** Rydym yn cydnabod bod Archwilio Cymru hefyd wedi newid ei ddull o amcangyfrif symudiadau cyfalaf gweithio yn yr Amcangyfrif hwn, ond rydym wedi ei chael yn anodd deall effaith y gostyngiad o £160,000 yn y maes hwn o ran yr effaith ar arian parod cyffredinol a'r newid canran. Y llynedd, gwnaethom argymell bod Archwilio Cymru yn newid y modd y cyflwynir ei Amcangyfrif a'i fod yn manylu ar gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân, ac rydym yn ailadrodd y cais hwn eleni.[183]

**162.** Rydym hefyd yn nodi'r angen posibl am Amcangyfrif atodol o ganlyniad i ddull newydd Archwilio Cymru o amcangyfrif symudiadau cyfalaf gweithio, a hoffem ddeall mwy am yr amgylchiadau a allai arwain at gais o'r fath.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, yn Amcangyfrifon y dyfodol, fod Archwilio Cymru yn ystyried sut y gall ddarparu rhagor o wybodaeth i fanylu ar gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân, yn enwedig lle y caiff cyllid a ddefnyddiwyd yn flaenorol at un diben ei ailddyrannu mewn man arall yn y gyllideb.

---

[183] Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, tudalen 65

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae'r newid i symudiadau cyfalaf gwaith yn digwydd yn 2025-26, a'i fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau a allai arwain at Amcangyfrif atodol at ddibenion cyllid sy'n gysylltiedig â symudiadau mewn cyfalaf gweithio.

**163.** Rydym yn cydnabod yr heriau o ran cyflawni arbedion ac effeithlonrwydd parhaus, a adlewyrchir mewn targed arbedion is ar gyfer 2025-26. Serch hynny, rydym yn croesawu'r targed arbedion ac yn credu'n gryf y dylai pob corff a gyllidir yn uniongyrchol geisio gwella prosesau a sicrhau effeithlonrwydd yn barhaus, fel y nodir yn ein Datganiad o Egwyddorion. Rydym hefyd yn cydnabod gwaith herio adeiladol y Bwrdd yn hyn o beth.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu cyrraedd ei darged arbedion ar gyfer 2025-26.

**164.** Mae'r Amcangyfrif yn cyfeirio at "[g]ynnydd cyflog oherwydd chwyddiant" a chlywsom fod Archwilio Cymru wedi cyllidebu ar gyfer 3.5 y cant o gynnydd yn ei fil cyflogau. Rydym yn awyddus i ddeall sut y mae codiadau cyflog yn cael eu hasesu a pha fesur chwyddiant sydd wedi ei ddefnyddio i ategu'r codiad arfaethedig yn 2025-26.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru:

- yn nodi'r ffactorau y mae'n eu hystyried wrth lunio cynigion cyflog, gan gynnwys y mesurau chwyddiant y mae'n eu hystyried, ac
- yn cadarnhau pa fesur chwyddiant y mae wedi ei ddefnyddio i ategu'r 3.5 y cant o godiad arfaethedig yn 2025-26.

**165.** Rydym yn cydnabod bod amseriad Cyllideb Hydref 2024 Llywodraeth y DU yn golygu nad yw'r Amcangyfrif yn adlewyrchu'r cynnydd o 1.2 pwynt canran yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, ac mae'n debygol y daw mewn Amcangyfrif atodol y flwyddyn nesaf. Nodwn fod Archwilio Cymru yn cynnig ceisio cyllid ychwanegol o tua £200,000 yn gyfan gwbl o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU cynnydd o 1.25 pwynt canran yn flaenorol mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr o fis Ebrill 2022 (er i hyn gael ei wrthdroi yn ddiweddarach). Bryd hynny, roedd Amcangyfrif 2022-23 yn ceisio cyfran o gyllid ychwanegol gan Gronfa Gyfunol Cymru, gyda'r gweddill yn cael ei dalu drwy

ffioedd.[184] Rydym yn awyddus i ddeall pam y mae Archwilio Cymru yn cynnig dull gwahanol o gyllido codiadau mewn Yswiriant Gwladol erbyn hyn.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae'n ystyried dull gwahanol o gymharu â'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol a gynigiwyd yn flaenorol yn 2022, gyda chyfran o'r cynnydd hwnnw'n cael ei gyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru a'r gweddill yn cael ei gyllido drwy ffioedd.

**166.** Nodwn fod y £25,000 o gynnydd mewn costau llywodraethu yn ymwneud â chomisiynu adolygiad annibynnol o'r Bwrdd, ac rydym yn cydnabod ei bod yn arfer da gwneud hynny bob tair i bum mlynedd. Gan mai cyllid unigol yw hwn yn 2025-26, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Archwilio Cymru ddangos yn glir lle mae'r cyllid hwn yn lleihau yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2026-27

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn dangos yn Amcangyfrifon y dyfodol sut y mae'r cynnydd untro o £25,000 mewn costau llywodraethu yn 2025-26 yn lleihau.

**167.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dystiolaeth a ddarperir ar effaith y swyddogaeth dadansoddi data a'i chyfraniad at ostwng y ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith ei swyddogaeth Dadansoddi Data o ran sbarduno arbedion ac effeithlonrwydd.

**168.** Rydym yn nodi'r £40,000 o fuddsoddiad seiberddiogelwch ychwanegol ar gyfer creu copïau wrth gefn nad oes modd eu newid a hoffem ddeall a yw hwn yn fuddsoddiad unwaith ac am byth ynteu'n gost barhaus.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau a yw'r £40,000 o fuddsoddiad ychwanegol mewn seiberddiogelwch yn cynrychioli cost untro ynteu cost barhaus.

**169.** Yn dilyn tanwariant blaenorol, a chan nodi symud i rentu datrysiadau TG yn y cwmwl yn flynyddol, rydym yn croesawu'r gostyngiad £30,000 yn rhaglen gyfalaf Archwilio Cymru (ac eithrio cyllid IFRS16). Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys dadansoddiad o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer y 'Rhaglen Newid' a 'Strategaeth TGCh', a chlywsom fod rhan fawr o'r rhaglen gyfalaf yn ymwneud â gwariant ar raglen dreigl tair blynedd o amnewid gliniaduron. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn

[184] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2022-23, tudalen 8

awyddus i ddeall sut mae'r £280,000 o fuddsoddiad cyfalaf wedi ei ddyrannu i brosiectau unigol yn yr is-gategorïau hyn, fel yr argymhellwyd yn flaenorol.[185]

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2025-26, a'i fod hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylder ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol.

**170.** Mae'r Pwyllgor yn canmol Archwilio Cymru am yr arbedion effeithlonrwydd sylweddol y mae wedi eu cyflawni drwy ddatblygu ei system rheoli archwiliadau ei hun yn seiliedig ar SharePoint. Er ein bod yn nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu buddsoddi tua £50,000 yn 2025-26 i ddatblygu'r system hon ymhellach, nid yw'n glir a yw hyn yn cynrychioli cost gyffredinol datblygu'r system hon.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn nodi cyfanswm y gost a ragwelir am ddatblygu ei blatfform rheoli archwiliadau yn seiliedig ar SharePoint a'r amserlenni ar gyfer cyflawni.

**171.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru yn cynnig cadw'r cynnydd cyfartalog yn ei gyfraddau ffioedd i lai nag 1.7 y cant yn 2025-26. Rydym yn deall bod hyn yn rhannol oherwydd gorstaffio er mwyn clirio'r ôl-groniad presennol o waith, a gall arwain at gynnydd anghymesur mewn cyfraddau ffioedd unwaith y bydd y llwyth gwaith wedi sefydlogi. Nodwn awgrym yr Archwilydd Cyffredinol y gellid defnyddio'r adnodd ychwanegol yn lle hynny i ehangu portffolio Archwilio Cymru i feysydd eraill o waith a gomisiynwyd, cynnig a oedd yn rhan o waith craffu ôl-ddeddfwriaethol Pwyllgor y Pumed Senedd ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.[186]

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi mwy o fanylion am y meysydd o waith a gomisiynwyd a fyddai'n briodol yn ei farn, yn ogystal â'r cyfleoedd a'r risgiau cysylltiedig.

185 Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2023, Argymhelliad 14
186 Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **3 Hydref 2024** | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Dr Ian Rees, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol,** Archwilio Cymru<br>**Anne-Louise Clark, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid,** Archwilio Cymru |
| **7 Tachwedd 2024** | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Dr Ian Rees, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru,** Archwilio Cymru<br>**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol,** Archwilio Cymru<br>**Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio,** Archwilio Cymru |

Atodiad 2: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026

Hydref 2024

Wedi ei baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Ian Rees**
Cadeirydd Archwilio Cymru

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni:

- Ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi eu hystyried.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Cynnwys

Rhagair 4

Cyllideb 2025–26 6

Cwmpas y Gyllideb 2025–26 8

# Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol. Mae'n darparu tryloywder ac atebolrwydd i drethdalwyr a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae'n darparu gwybodaeth ariannol gywir a dibynadwy i gyrff cyhoeddus fel y gallent gynllunio a rheoli eu gwasanaethau a'u cyllid yn effeithiol.

Mae ein gwaith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn drwy Gyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut mae arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli o Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron i bob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo.

Mae archwiliad cyhoeddus yn rhoi asesiad annibynnol i'r Senedd, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd o'r defnydd a'r rheolaeth o arian cyhoeddus a rhybudd cynnar o broblemau. Pan fo ansawdd neu amseroldeb archwilio yn lleihau, mae'r risgiau o wastraff, twyll a chamreoli yn cynyddu.

Noda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yr heriau ynghylch gwariant sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf 2024 – gan nodi'r ansicrwydd sylweddol ynghylch cyllid cyhoeddus Cymru ar ôl 2024-25.

Rydym yn cydnabod y pwysau hwn ar gyllid cyhoeddus. Yn wir, y pwysau hynny sy'n gwneud gwaith Archwilio Cymru yn fwy hanfodol fyth. Ni fu'r angen am werth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus, ac asesiad amserol dibynadwy o gyflwr rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yn sector cyhoeddus Cymru, erioed yn fwy. Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yw egluro'n glir i'r Senedd beth sydd ei angen i ddarparu hynny drwy swyddfa archwilio gyhoeddus cryf, cynaliadwy ac annibynnol. Heb swyddfa o'r fath, mae'r risg o fethu â gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau prin hynny yn cynyddu'n fawr. Ac mae'r gost i'r pwrs cyhoeddus am y gwendidau sy'n codi'n gyflym o ganlyniad, lawer yn fwy na'r gost o gynnal trefn archwilio gyhoeddus o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol. Mae cyfanswm y gost o ddarparu sicrwydd a mewnwelediad annibynnol Archwilio Cymru ychydig dros un geiniog am bob £10 sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Gan ystyried hyn i gyd, mae ein Hamcangyfrif yn caniatáu cynnydd o 2.9% yn ein galwad gyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru o ran adnoddau. Caniateir cynnydd cyfartalog o 1.7% yn ein cyfraddau ffioedd ar gyfer y Cynllun Ffioedd drafft a atodir i'r Amcangyfrif.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023–24 yn nodi ein cofnod o'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Ebrill eleni, gwnaethom gyflwyno ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024–25 ger bron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 ac mae'n cynnwys gofynion ac ystyriaethau cyllid dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cyflwynir ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025–26 gerbron y Senedd cyn mis Mawrth 2025.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



**Ian Rees**
Cadeirydd, Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cyllideb 2025–26

Cyfanswm o £28.4 miliwn yw ein cyllideb ar gyfer 2025-26, ac yn darparu ar gyfer:

- Archwiliadau cyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad mewn dros 850 o gyrff archwiliedig yr ydym yn codi ffioedd amdano yn unol â darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- Archwiliadau ac Astudiaethau Gwerth Cenedlaethol ac Astudiaethau Llywodraeth Leol;
- Gwaith i archwilio themâu sy'n deillio o'n gwaith cyfrifon;
- Cefnogaeth i'n hymateb i faterion a ddygir i'n sylw gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig;
- Ein rhaglen hyfforddiant ariannol ledled Cymru;
- Cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a'n Cyfnewidfa Arfer Da; a
- Goblygiadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 nad ydynt yn ymwneud ag arian parod o ran symudiad ein swyddfa gorllewin Cymru.

| | **2025-26 £’000** | **2024-25 £’000** | **% y newid o’i chymharu â 2024–25** |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 23,360 | 22,312 | 4.7% |
| Llety | 718 | 731 | (1.8%) |
| Teithio a Chynhaliaeth | 352 | 303 | 16.2% |
| Costau cylchol y Fenter Twyll Genedlaethol | - | 130 | (100%) |
| Costau eraill | 3,504 | 3,149 | 11.3% |
| Buddsoddiad cyfalaf | 467[1] | 310 | 50.6% |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **28,401** | **26,935** | **5.4%** |
| Incwm sy’n deillio o Ffioedd Archwilio | 18,610 | 17,476 | 6.5% |
| Cyfanswm yr alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru | 9,791 | 9,459 | 3.5% |
| Galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru (arian parod) | 9,236 | 9,127 | 1.2% |

1 Gan gynnwys gofynion Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 nad ydynt yn ymwneud ag arian parod

# Cwmpas y Gyllideb 2025–26

## Gofynion cyllideb amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026

1 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Senedd er mwyn cael awdurdod i ddefnyddio adnoddau, cadw incwm a defnyddio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai pobl berthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

2 O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:

- faint o adnoddau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- faint o adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y ceir eu cadw yn hytrach na'u talu i Gronfa Gyfunol Cymru; a
- faint y ceir ei dalu allan o'r Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Crynhoir y gofynion hyn, na all fod yn fwy nag amcangyfrifon oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn **Arddangosyn 1**.

4 Nodir manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwiliad cyhoeddus yng Nghymru yn 2025-26 yn ein gwybodaeth ategol.

**Arddangosyn 1: crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2025–26**

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, heblaw adnoddau sy'n cronni, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,791 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol a ddarperir a chostau y mae trydydd parti wedi mynd iddynt a adenillir – y mae Swyddfa Archwilio Cymru i ddefnyddio'r cyfan i gyflawni swyddogaethau yr Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 18,610 |
| Gofyniad arian net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyladwy gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn. | 9,236 |

5 Mae **Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian net am y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

**Arddangosyn 2: cysoni'r angen am adnoddau â'r angen i ddefnyddio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau | 9,791 |
| Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a llog | (608) |
| Addasiad nad yw'n arian parod – cyfalafu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 | (187) |
| Taliadau rhent ar gyfer lesoedd | 200 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio (defnyddio darpariaeth dadfeiliadau) | 40 |
| Gofyniad arian net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyladwy gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn | 9,236 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.